

Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2017/18

(ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018)

HC 1202



12

Endeavour Square

Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol

Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2017/18

(ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018)

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol â pharagraffau 11(4) ac 15(3) yn Atodlen 1ZA Deddf Marchnadoedd a Gwasanaethau Ariannol 2000 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Gwasanaethau Ariannol 2012 a Deddf Gwasanaethau Ariannol (Diwygio Bancio) 2013

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin ei fod i'w argraffu ar 19 Gorffennaf 2018

© Hawlfraint yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol 2018

Gall testun y ddogfen hon (ac eithrio, lle bo'n bresennol, yr Arfbais Frenhinol a phob logo adran neu asiantaeth) gael ei atgynhyrchu am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, cyhyd â'i fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol.

Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol a nodi teitl y ddogfen. Pan fod deunydd â hawlfraint gan drydydd parti wedi'i nodi, bydd angen i chi ofyn am ganiatâd gan y sawl sy'n dal yr hawlfraint honno.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom ni yn:

Financial Conduct Authority
12 Endeavour Square
London
E20 1JN

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn <https://www.gov.uk/government/publications>

ISBN 978-1-5286-0567-0

CCS CCS0618905050 07/18

Argraffwyd ar bapur yn cynnwys 75% o ffibr wedi'i ailgylchu o leiaf

Argraffwyd yn y DU gan Grŵp APS ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd	6
----------------------------	---

Datganiad gan y Prif Weithredwr	8
--	---

Adroddiad strategol

1	Cyflwyniad	10
----------	------------	----

2	Gadael yr UE	18
----------	--------------	----

3	Ein blaenoriaethau traws sector	19
	Diwylliant a threfniadau llywodraethu cwmnïau	19
	Troseddau ariannol ac atal gwyngalchu arian (AML)	24
	Hybu cystadleuaeth ac arloesedd	27
	Newid a gwytnwch technolegol	31
	Trin cwsmeriaid presennol	33
	Bregusrwydd defnyddwyr a'u mynediad at wasanaethau ariannol	35

4	Ein blaenoriaethau sector	38
	Marchnadoedd ariannol cyfanwerthu	38
	Rheoli buddsoddiadau	43
	Pensiynau ac incwm ymddeoliad	47
	Bancio adwerthu	53
	Benthyca Adwerthu	58
	Diogelwch ac yswiriant cyffredinol	64
	Buddsoddiadau adwerthu	68

5	Gweithio gyda'n partneriaid	73
----------	-----------------------------	----

6.	Trosolwg gweithredol o'r grŵp	80
-----------	-------------------------------	----

Datganiadau ariannol a llywodraethu corfforaethol

7.	Adroddiad y cyfarwyddwyr a Datganiad llywodraethu corfforaethol	90
-----------	---	----

8.	Datganiadau ariannol	110
-----------	----------------------	-----

Atodiadau

1	Adroddiad yr unigolion medrus	140
----------	-------------------------------	-----

2	Adolygiad Blynnyddol y Pwyllgor Penderfyniadau Rheoleiddio	142
----------	--	-----

3	Adroddiad cynaliadwyedd	151
----------	-------------------------	-----

Rhagair y Cadeirydd

Charles Randell



Mae gwasanaethau ariannol yn effeithio ar fywydau pawb. Ac, fel mae'r Adroddiad Blynnyddol hwn yn ei ddangos, mae hi'n gallu bod yn anodd cadw llygad ar ddatblygiadau mewn gwasanaethau ariannol. Rhaid i ni fynd ati'n ddiymdroi ac yn gadarn i ddelio â niwed i ddefnyddwyr, yn enwedig yr unigolion swydd fwyaf bregus. Rydym yn gorfod gwneud rhai penderfyniadau anodd yn ystod y broses, a dysgu beth sy'n gweithio a beth sydd ddim – a bod yn agored ynghylch y ddau.

Mae rhai o'n blaenoriaethau y tu hwnt i'n rheolaeth ar hyn o bryd. Fel mae ein Cynllun Busnes ar gyfer y flwyddyn nesaf yn ei egluro, byddwn yn parhau i neilltuo rhan helaeth o'n hadnoddau i Brexit.

Ar yr un pryd, mae ein cylch gwaith yn parhau i dyfu. Eleni, er enghraifft, byddwn yn dod yn gyfrifol am reoleiddio cwmnïau rheoli hawliadau. Ac, fel mae'r Adroddiad yma'n ei ddangos, mae technoleg fodern yn galw am reoliadau sy'n cyd-fynd â datblygiadau newydd yn ogystal â rhagweld eu hesblygiad.

Mae technoleg yn allweddol wrth roi cyngor a darparu cynnyrch a gwasanaethau ariannol er mwyn diwallu anghenion y gymdeithas wrth iddynt newid. Gall leihau costau, cyfuno gwybodaeth a gwasanaethau a chynnig mynediad at wasanaethau

ariannol i grwpiau newydd o ddefnyddwyr. Nid yw arloesedd, hyd yn hyn, wedi crafu'r wyneb o ran beth sydd, a beth fydd, yn bosibl yn y diwydiant. Ond, mae manteision ac anfanteision i hyn. Mae mynediad at wasanaethau ariannol hanfodol ar gael i fwy o bobl nag erioed, ond mae'n bosibl eu bod yn agored i risg, gan gynnwys risgiau o dwyll ar-lein a defnydd annheg o'u data. Mae hefyd risg y gall rhai defnyddwyr – defnyddwyr bregus – gael eu gadael ar ôl.

Bu'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol yn bencampwr cyson o FinTech a RegTech. Mae ein heiriolaeth a'n profiad wedi annog rheoleiddwyr mewn awdurdodau eraill i ddilyn ein hesiampl. Rwyf yn gobeithio ac yn disgwyl y bydd y nifer o'r rhaglenni ar y cyd hyn yn tyfu, boed nhw'n rhai ffurfiol neu anffurfiol. Mae arloesedd ariannol ar raddfa fyd-eang yn gofyn am safon gyson o reoleiddio rhyngwladol.

Wrth i wasanaethau ariannol ddod yn fyd-eang, felly hefyd trosedd ariannol. Dim ots beth fydd Brexit yn ei olygu yn y pen draw, bydd cynnal a gwella ein partneriaethau gyda rheoleiddwyr rhyngwladol ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn parhau i fod yn hollbwysig. Nid oes lle i droseddau ariannol yn y DU, a felly dylai aros. Nid yn unig oherwydd y difrod mae trosedd fel hyn yn ei achosi, ond hefyd

er mwyn sicrhau bod y DU yn parhau i fod yn ganolfan fyd-eang er mwyn denu a thrafod busnes cyfreithlon. Nid oes cartref i drosedd ariannol yma.

Edrychaf ymlaen at gyfarfod a gweithio gyda chwmnïau a grwpiau defnyddwyr dros y blynnyddoedd nesaf. Byddant yn elwa o symud yr FCA i swyddfa newydd yn Stratford, swyddfa a fydd yn darparu'r seilwaith technegol sydd ei angen arnom er mwyn rheoleiddio'n effeithiol. Ond mae symud i Stratford yn golygu mwy na dim ond symud adeiladau. Byddwn yn ymuno â chymuned sy'n wahanol iawn i Canary Wharf, a byddwn yn agosach o lawer i'r defnyddwyr mae ein gwaith yn eu diogelu. Byddwn yn gweithio i sicrhau ein bod yn wir yn rhan o'r gymuned honno, ac yn cefnogi'r bobl sy'n byw yno.

Mae symud i Stratford hefyd yn gyfle gwyh i herio ein hunain i weithio mewn ffordd wahanol:

i fod yn fwy cydweithredol ar draws yr FCA, i symleiddio ein prosesau, ac i sicrhau canlyniad teg yn gynt. Fel Cadeirydd, byddaf yn sicrhau bod Bwrdd yr FCA yn cefnogi Andrew Bailey a'i uwch dîm arwain wrth wneud hyn, a bod yr FCA yn herio ei hun i adeiladu ar ei lwyddiannau sylweddol a bod y gorau posibl.

Mae'n ffrainc ac yn bleser i mi gael fy mhenodi'n Gadeirydd yr FCA yn ystod cyfnod heriol yn ei hanes, ond cyfnod llawn posibiliadau hefyd. Hoffwn dalu teyrnged i waith fy rhagflaenydd, John Griffith-Jones, cadeirydd yr FCA yn ystod y pum mlynedd cyntaf. Edrychaf ymlaen at y bennod nesaf yn natblygiad yr FCA.



Charles Randell
Cadeirydd
Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol



Rydym yn gorfod gwneud rhai penderfyniadau anodd yn ystod y broses, a dysgu beth sy'n gweithio a beth sydd ddim – a bod yn onest ynghylch y ddau.



Datganiad gan y Prif Weithredwr

Andrew Bailey



Croeso i'n Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2017/18. Mae'n dangos yr hyn yr ydym wedi'i gyflawni yn erbyn blaenoriaethau ein Cynllun Busnes. Yn unol â'n Cenhadaeth, mae hefyd yn ceisio egluro'r effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol mae ein gwaith wedi eu cael ar ddiogelu defnyddwyr, uniondeb y farchnad a chystadleuaeth yn y cwmnïau a'r marchnadoedd rydym yn eu rheoleiddio.

Rwy'n gobeithio ei fod hefyd yn amlwg ein bod wedi dechrau mesur ein heffaith a'r gwerth cyhoeddus a gyflawnwn mewn ffordd fwy ystyrlon. Byddwn yn parhau i newid y ffordd yr ydym yn gwneud hyn wrth i ni ddatblygu ffyrdd newydd o werthuso ein gweithredoedd a'n hymyriadau.

Er bod yr Adroddiad Blynyddol hwn yn dangos yr ystod eang o'n gweithgareddau, mae yna dri maes allweddol sy'n diffinio ein gwaith eleni.

Gadael yr UE

Y cyntaf yw ein gwaith parhaus i baratoi tuag at pan fydd y DU yn gadael yr UE, sy'n torri ar draws ein holl swyddogaethau. Mae'r adnoddau yr ydym wedi'u neilltuo i'r gwaith hwn yn sylweddol, a byddant yn parhau i fod yn sylweddol. Yn ogystal â darparu cymorth technegol parhaus i'r Llywodraeth, rydym

wedi gweithio gyda chwmnïau i ddeall eu cynlluniau gweithredu a'u heffaith yn y dyfodol, wedi gweithio ar ddylunio'r drefn caniatâd dros dro arfaethedig ar gyfer cwmnïau EEA sy'n gweithredu yn y DU ar hyn o bryd a pharhau â'n cydweithrediad agos â'r Awdurdodau Goruchwyllo Ewropeaidd.

Mae croeso cynnes i gytundeb y Cyngor Ewropeaidd i delerau trefniant trosiannol y cytunwyd arnynt yn gynharach eleni. Rydym yn cefnogi'r penderfyniad i'w weithredu fel rhan o'r cytundeb gadael ehangach. Mae'n bwysig bod marchnadoedd a chwmnïau – ac yn wir, rheoleiddwyr – yn cael sicrwydd. Ein nod yw parhau i gydweithio'n agos â rheoleiddwyr yr UE i gyflawni ein hamcanion ar y cyd yn ystod y misoedd a'r blynyddoedd i ddod.

Yn y cyfamser, mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i ddeddfu am gyfundrefn caniatâd dros dro. Mae hyn yn rhoi cronfa wrth gefn bwysig i gwmnïau EEA er mwyn sicrhau y gallant weithredu'n ddi-dor y diwrnod ar ôl i ni adael yr UE fel y gwnaethant o'r blaen. Mae hefyd yn rhoi sicrwydd i ddefnyddwyr y bydd y gwasanaethau y maent yn eu defnyddio gan gwmnïau sy'n dewis defnyddio'r gyfundrefn yn parhau'n ddi-dor. Ond ar y funud nid oes modd i mi roi'r un sicrwydd i gwsmeriaid yn yr EEA sy'n defnyddio gwasanaethau

cwmnïau'r DU, a byddwn yn parhau i weithio gyda'r UE i gyflawni hyn.

Newid rheoliadol

Wrth gynllunio ar gyfer dyfodol y tu allan i'r UE, mae'n rhaid i gwmnïau'r DU a'u rheoleiddwyr barhau i weithredu ac ymgorffori holl ddeddfwriaethau'r Undeb Ewropeaidd sy'n effeithio ar gwmnïau a marchnadoedd ariannol. Eleni rydym wedi cymhwyso deddfwriaeth a fydd yn cael goblygiadau dwys ar dryloywder cwmnïau, y ffordd y maent yn trin defnyddwyr ac, mewn rhai achosion, hyd yn oed eu modelau busnes.

Daeth MiFID II i rym ar 3 Ionawr 2018 ac roedd yn cyflwyno terfynau amser heriol i gwmnïau, ac roedd y mwyafrif helaeth wedi ymdopi â'r rhain. Mae'n mynd i'r afael â phrif achosion niwed, o ddiffyg tryloywder i wydnwch gweithredol, a byddwn yn cefnogi cwmnïau i sicrhau ei bod wedi ei gwreiddio'n llwyr ar draws y diwydiant dros y flwyddyn nesaf. Mae gan yr ail Gyfarwydddeb Gwasanaethau Taliadau, a weithredwyd ym mis Ionawr hefyd, botensial i achosi chwyldro o ran y gystadleuaeth o ennill defnyddwyr trwy fancio agored, cyn belled ag y gall cwmnïau sicrhau bod eu data yn parhau i fod yn ddiogel.

Rydym hefyd wedi gweithredu neu ehangu deddfwriaethau


domestig pwysig a newidiadau pwysig i reolau a fydd yn codi safonau ymddygiad, tryloywder a diogelwch ym marchnadoedd y DU. Ym mis Mai 2017, cafodd y Gyfundrefn Ardystio ac Uwch Reolwyr ei hymestyn i gyfarwyddwyr anweithredol. Cyn cyhoeddiad y Trysorlys ynglŷn â phryd y bydd y Gyfundrefn Ardystio ac Uwch Reolwyr yn cael ei hymestyn i'r holl gwmnïau a reoleiddiwn, roeddem wedi ymgynghori ynghylch rheolau newydd a fydd yn hybu safonau ymddygiad unigol ar bob lefel mewn gwasanaethau ariannol.

Trin defnyddwyr yn deg

Mae ein gwaith eleni wedi anfon neges glir i gwmnïau, os na fyddant yn trin cwsmeriaid yn deg, yna byddwn yn cymryd camau gweithredu.

Bellach mae'n rhaid i gwmnïau cardiau credyd helpu cwsmeriaid sydd mewn dyled barhaus i leihau eu balans sydd yn weddill. Mae ein rheolau newydd wedi lleihau costau a ffioedd cynlluniau pensiwn yn y gweithle i 1% neu lai. Ac rydym hefyd wedi gwneud rheolau newydd i gael gwell cysondeb o ran tâl a gwobrau staff cwmnïau credyd defnyddwyr gyda chanlyniadau i ddefnyddwyr. Fodd bynnag, mae angen gwaith sylweddol a pharhaus o hyd i sicrhau bod defnyddwyr yn gallu bod yn gyson hyderus yn y cynnyrch a'r gwasanaethau ariannol y maent yn dibynnu arnynt.

Hoffwn groesawu Charles Randell fel ein Cadeirydd newydd, diolch i'm holl gydweithwyr yn yr FCA sydd wedi gweithio mor galed i gyflawni ein llwyth gwaith cynyddol ac i Fwrdd yr FCA am eu harbenigedd a'u her. Bydd y flwyddyn nesaf yn sicr yn un ddiddorol.



Andrew Bailey

Y Prif Weithredwr:

Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol



Mae ein gwaith eleni wedi anfon neges glir i gwmnïau, os na fyddant yn trin cwsmeriaid yn deg, yna byddwn yn cymryd camau gweithredu.



1 Cyflwyniad


Mae ein hamcanion, a osodwyd gan y Senedd, yn sicrhau ein bod ni'n gweithredu er budd y cyhoedd. Mae Deddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000 yn rhoi un amcan strategol i ni – sicrhau bod y marchnadoedd rydym yn eu rheoleiddio'n gweithredu'n dda. Mae'r Ddeddf Marchnadoedd a Gwasanaethau Ariannol hefyd yn rhoi 3 nod gweithredol i ni i hybu hyn:

- **diogelu defnyddwyr** – i sicrhau diogelwch priodol i ddefnyddwyr
- **diogelu uniondeb systemau ariannol** – i ddiogelu ac ehangu uniondeb system ariannol y DU
- **hybu cystadleuaeth effeithiol** – i hybu cystadleuaeth effeithiol er budd defnyddwyr

Ni yw'r rheoleiddiwr ymddygiad ar gyfer dros 58,000 o gwmnïau gwasanaethau ariannol yn y DU a 145,000 o bobl gymeradwy.

Rydym hefyd yn oruchwyliwr darbodus ar gyfer tua 46,000 o gwmnïau. Rydym yn gosod safonau manwl ar gyfer 18,000 o'r cwmnïau mwyaf hyn. Rhaid i hyd yn oed cwmnïau sydd heb isafswm gofynion adnoddau ariannol sicrhau bod ganddynt adnoddau digonol, yn ôl ein hamodau trothwy ar gyfer awdurdodi neu gofrestru.

Mae ein Cenhadaeth, a gyhoeddwyd yn 2017, yn darparu'r fframwaith ar gyfer y penderfyniadau strategol a gymerwn i sicrhau bod y marchnadoedd rydym yn eu rheoleiddio'n gweithredu'n dda. Rydym yn canolbwyntio ein hadnoddau ar y marchnadoedd a chwmnïau sy'n fwyaf tebygol o achosi niwed i ddefnyddwyr, niweidio uniondeb y farchnad neu wanhau cystadleuaeth. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r gwaith yr ydym wedi'i wneud o fewn y sectorau allweddol i leihau niwed dros 2017/18. Mae hyn yn adlewyrchu strwythur ein Cynllun Busnes.



Mae ein Cenhadaeth yn amlinellu 5 categori o niwed, sy'n adlewyrchu ein hamcanion gweithredol. Ein nod yw defnyddio ein harfau'n effeithlon ac yn gost-effeithiol i leihau neu i atal y niwed hwn, gan ddarparu'r gwerth cyhoeddus mwyaf ac felly gwasanaethu budd y cyhoedd:

Math o niwed	Amcan(ion) gweithredol perthnasol yr FCA
Mae hyder a chyfranogiad mewn marchnadoedd yn y fantol oherwydd ymddygiad annerbyniol megis camddefnyddio'r farchnad, perfformiad annibynadwy neu drwy fethiant anhrefnus	Uniondeb y farchnad Diogelu defnyddwyr Cystadleuaeth effeithiol
Defnyddwyr yn prynu cynnyrch anaddas; gwasanaeth i gwsmeriaid gwael neu drin cwsmeriaid yn wael	Diogelu defnyddwyr Cystadleuaeth effeithiol
Nid yw anghenion pwysig defnyddwyr yn cael eu diwallu oherwydd bylchau yn yr ystod o gynnyrch sydd ar gael ar hyn o bryd, allgau defnyddwyr, diffyg gwydnwch y farchnad	Diogelu defnyddwyr Cystadleuaeth effeithiol
Prisiau rhy uchel neu safonau rhy isel	Cystadleuaeth effeithiol
Risg o sgil-effeithiau niweidiol sylweddol ar farchnadoedd ehangach, economi'r DU a'r gymdeithas ehangach, ee trosedd neu derfysgaeth	Uniondeb y farchnad

Mae'r enghreifftiau a restrir yn yr adroddiad hwn yn egluro'r hyn yr ydym wedi'i wneud eleni i atal neu leihau'r mathau hyn o niwed ac, felly, i hybu ein hamcanion gweithredol.

Mae ein cylch gorchwyl rheoliadol yn eang. Rhwng Tachwedd 2017 a Mawrth 2018 fe wnaethom gyhoeddi 5 dogfen ymgynghori i esbonio ein dull rheoleiddio yn fanylach. Mae hyn yn rhan o ymrwymiad ein Cenhadaeth i fod yn fwy agored a thryloyw ynglŷn â sut rydym yn rheoleiddio a'r ffordd yr ydym yn gwneud penderfyniadau allweddol. Gyda'i gilydd, mae'r dogfennau hyn yn rhoi enghreifftiau o'r modd yr ydym wedi datblygu ein hamcanion statudol. Y dogfennau ymgynghori hyn yw:

- **Ymagwedd at Ddefnyddwyr** – Esboniodd hyn y ffordd yr ydym yn rheoleiddio er mwyn gwella canlyniadau i ddefnyddwyr adwerthu, yn unol â'n hamcan diogelu defnyddwyr. Mae'n rhoi ein barn ar yr hyn sy'n arfer da a sut yr ydym yn gwneud diagnosis ac yn gwella niwed posibl a gwirioneddol.
- **Ymagwedd at Gystadleuaeth** – Nododd hyn sut yr ydym yn cyflawni ein hamcan i hybu cystadleuaeth er lles defnyddwyr. Mae'n esbonio ein ffocws ar gadw marchnadoedd yn agored i aelodau newydd ac arloesedd, mynd i'r afael ag ymddygiad gwrth-gystadleuol ac ymyrryd i sicrhau bod cystadleuaeth yn sicrhau canlyniadau da i ddefnyddwyr.
- **Ymagwedd at Awdurdodi** – Esboniodd hyn y ffordd yr ydym yn defnyddio awdurdodi fel offeryn i atal niwed, gan gynnwys trwy sicrhau bod pob cwmni ac unigolyn rheoledig yn cyrraedd – ac yn parhau i gyrraedd – safonau cyffredin.
- **Ymagwedd at Oruchwyliaeth** – Manylodd hyn ar ein hargymhellion o ran goruchwyliaeth, gan gynnwys ein dull gweithredu, sy'n seiliedig ar wybodaeth a data i ymgysylltu â chwmnïau. Disgrifiodd sut yr ydym yn edrych ar fodelau busnes, diwylliant a'r hyn sy'n sbarduno ymddygiad cwmnïau i sicrhau ein bod yn cymryd camau uniongyrchol a chyflym yn erbyn y niwed y down o hyd iddo.

- **Ymagwedd at Orfodaeth** – Esboniodd hyn ein nod ar gyfer canlyniadau teg a chyfiawn mewn ymateb i gamymddygiad, i sicrhau bod cwmnïau'n bodloni ein rheolau a'n gofynion. Mae'n nodi ein prif egwyddor i ddarparu cyfiawnder sylweddol, ac mae'n esbonio sut yr ydym yn cynnal ymchwiliadau mewn modd cyson ac agored. Mae'r gwaith hwn wedi datblygu ein hamcanion uniondeb y farchnad a diogelu defnyddwyr.

Rydym wedi gofyn am adborth a sylwadau ar y dogfennau hyn a byddwn yn cyhoeddi fersiynau terfynol yn ystod 2018/19. Ein ffocws yw hybu gwaith sy'n lleihau niwed, gan weithio'n agos gyda'n partneriaid domestig a rhyngwladol, a chadw mewn cof ein cylch gwaith rheoliadol (ein 'perimeddr rheoleiddio'). Yn y flwyddyn ariannol nesaf, byddwn hefyd yn cyhoeddi ein Hymagwedd i Uniondeb y Farchnad.

Trosolwg o weithgaredd rheoleiddiol

Rydym yn defnyddio ein pwerau i hybu a darparu rheolau a fframweithiau cadarn, ymarferol sy'n helpu i sicrhau bod y marchnadoedd rydym yn eu rheoleiddio'n gweithredu'n dda. Rydym wedi nodi isod rai uchafbwyntiau penodol o'r flwyddyn:

- Fe wnaethom gyhoeddi Ein Hymagwedd at Awdurdodi. Dros gyfnod yr adroddiad hwn, proseswyd 4,452 o geisiadau am ganiatâd gan gwmnïau.¹ Proseswyd 1,907 o geisiadau ar gyfer cymeradwyaeth newid rheolaeth, 2,531 o geisiadau ar gyfer terfynu'r caniatâd a 391 achos o ildio hawl. Rydym hefyd wedi amrywio caniatâd 2,656 o gwmnïau, wedi prosesu elw 7,743 o gymdeithasau cydfuddiannol a 10,619 o geisiadau gan gwmnïau ynghylch pasbortio.² Mae hyn yn ein helpu i atal lledaenu arfer gwael ac yn ein helpu i ddangos sut rydym wedi gweithredu'n unol â'n hamcanion strategol i sicrhau bod y farchnad yn gweithio'n dda.
- Rydym yn goruchwyllo cwmnïau i atal niwed i ddefnyddwyr a marchnadoedd, fel eglurwyd yn Ein Hymagwedd i Oruchwyllo. Rydym yn goruchwyllo 58,000 o gwmnïau sy'n gwasanaethu defnyddwyr adwerthu a chyfanwerthu. Pan fyddwn ni'n gweld bod niwed i ddefnyddwyr neu gymdeithas yn debygol, byddwn yn gweithredu.
- Rydym wedi cymryd camau gorfodi priodol, fel yr amlinellwyd yn ein Hadroddiad Gorfodaeth. Yn 2017/18, fe wnaethom gyflwyno 269 o rybuddion terfynol (248 yn erbyn cwmnïau ac unigolion yn masnachu fel cwmnïau a 21 yn erbyn unigolion), sicrhau 317 o ganlyniadau drwy ddefnyddio ein pwerau gorfodaeth (303 o rai rheoleiddiol neu sifil ac 14 o rai troseddol) yn ogystal â dyfarnu 16 o gosbau ariannol gwerth £69.9m. Roedd ein camau gorfodi yn cynnwys gosod ein dirwy fwyaf hyd yn hyn ar gyfer torri'r Rheolau Datgelu a Thryloywder lle nad oedd cwmni'n sylweddoli bod gwerth rhai asedau wedi gostwng yn sylweddol, a methodd â chyflwyno adroddiad i'r farchnad yn ei ganlyniadau hanner blwyddyn.
- Mae ein Hadroddiad Cystadleuaeth yn egluro beth rydym wedi ei wneud i hybu cystadleuaeth er budd defnyddwyr. Rydym wedi parhau i weithio ar sawl astudiaeth ar y farchnad yn ystod 2017/18. Er enghraifft, mae rhai rhanddeiliaid yn y sector broceriaid yswiriant cyfanwerthu wedi bod â phryderon ynghylch y ffordd roedd cystadleuaeth yn gweithio. Penderfynom mai astudiaeth o'r farchnad oedd y ffordd

1 Mae'r ffigur hwn yn cynnwys y ceisiadau a gymeradwywyd, eu gwrthod a'u tynnu'n ôl.

2 Mae'r ffigur hwn yn cyfeirio at y Pasbortau newydd a'r newidiadau i'r rhai oedd eisoes yn bodoli.

orau o asesu hyn, gan y byddai'n rhoi safbwyntiau ystod ehangach o randdeiliaid, yn hytrach na defnyddio ein harfau goruchwyllo i fynd i'r afael ag arferion penodol cwmnïau unigol.

- Fe wnaethom gyfrannu at fentrau pwysig i gryfhau ymagwedd y DU i atal gwyngalchu arian (AML) fel yr amlinellwyd yn ein Hadroddiad AML. Roedd hyn yn cynnwys gweithredu cyfarwydddeb diweddaraf yr UE i atal gwyngalchu arian trwy Reoliadau Gwyngalchu Arian, Ariannu Terfysgwyr a Throsglwyddo Arian (Gwybodaeth am y Talwr) 2017 (MLRs 2017).
- Mae ein rhaglen Amrywiaeth a Chynhwysiant yn ganolog i'r ffordd yr ydym yn gweithredu fel cyflogwr a rheoleiddiwr. Rydym yn esbonio ein hymagwedd tuag at amrywiaeth yn ein Hadroddiad Amrywiaeth.

Ein hegwyddorion a'n swyddogaethau rheoleiddio

Mae gennym nifer o swyddogaethau o dan y Ddeddf Marchnadoedd a Gwasanaethau Ariannol Mae'r rhain yn cynnwys gwneud rheolau, rhoi cyfarwyddyd cyffredinol, goruchwyllo ac awdurdodi cwmnïau.³

Pan fyddwn yn rhoi ein swyddogaethau cyffredinol ar waith, rydym yn ystyried yr egwyddorion rheoleiddio canlynol er mwyn sicrhau rheoleiddio da:

- effeithlonrwydd ac economi
- cyfranoldeb
- twf cynaliadwy
- y cyfrifoldeb sydd gan y defnyddwyr eu hunain
- cyfrifoldeb uwch reolwyr cwmnïau i gydymffurfio â'r fframwaith rheoleiddiol
- cydnabod y gwahaniaethau rhwng busnesau a gafodd eu cynnal gan wahanol bobl reoledig
- didwylledd a datgeliad
- tryloywder

Mae'r egwyddorion rheoleiddiol hyn yn sail i'n holl waith ac maent i gyd yr un mor bwysig â'i gilydd. Yn unol â gofynion FSMA, rydym yn cynnwys datganiad cydnawsedd yn ein papurau ymgynghori. Mae hyn yn egluro pam rydym yn credu bod ein cynigion yn cyd-fynd â'n dyletswydd i ystyried yr egwyddorion, gan gydnabod na fydd yr holl egwyddorion bob amser yn berthnasol ym mhob achos ac y gallai mwy nag un egwyddor gael ei chynnwys mewn unrhyw gyd-destun penodol.

³ Mae'r Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000 ('y Ddeddf') yn gofyn i'r Trysorlys, o leiaf unwaith ym mhob Senedd, wneud argymhellion i'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) am agweddau ar bolisi economaidd y llywodraeth y dylai'r FCA eu hystyried wrth weithredu mewn ffordd sy'n gydawns â'i amcan strategol; sut i hybu un neu ragor o'i amcanion gweithredol; sut i gyflawni ei ddyletswydd i hybu cystadleuaeth effeithiol er lles defnyddwyr; cymhwyso'r egwyddorion rheoliadol a nodir yn y Ddeddf; a phwysigrwydd cymryd camau i leihau'r graddau y mae'n bosibl i fusnes gael ei ddefnyddio at ddiben sy'n gysylltiedig â throsglwyddo ariannol.

Er enghraifft:

- Roedd ein Cenhadaeth a'r dogfennau dilynol 'Ymagwedd at' yn tynnu sylw at sut yr ydym yn gweithio a'n hymagwedd at reoleiddio, dangos tryloywder a bod yn agored trwy esbonio'r rhesymeg y tu ôl i'n penderfyniadau.
- Mae'r dyddiad cau a osodwyd gennym i wneud cwyn am Yswiriant Gwarchod Taliadau, a'r ymgyrch rydyn ni'n ei chynnal i annog defnyddwyr i ystyried eu sefyllfa a gweithredu cyn y dyddiad cau, yn tynnu sylw at sut yr ydym ni'n annog defnyddwyr i gymryd cyfrifoldeb priodol am eu penderfyniadau. Roedd ein mesurau hefyd yn dangos cymesuredd, yn enwedig o safbwynt y costau i gwmnïau'r ymgyrch a thrin cwynion defnyddwyr yn deg a gwirio ymholiadau, o'i gymharu â'r niwed y mae camwerthu yn ei achosi i ddefnyddwyr a'r manteision y mae sicrwydd y terfyn amser yn ei roi i gwmnïau. Mae'r dyddiad cau a'r ymgyrch hefyd yn tynnu sylw at sut yr ydym yn annog defnyddwyr i gymryd cyfrifoldeb priodol am eu penderfyniadau trwy ofyn iddynt benderfynu nawr i wirio a oedd ganddynt PPI, cwyno, a gwneud hynny yn brydlon.
- Mae lansio'r Ganolfan Awdurdodi Rheoli Asedau yn dangos ein hymrwymiad i dwf cynaliadwy. Mae hefyd yn dangos ein bod yn cydnabod y gwahaniaethau mewn busnesau a wneir gan wahanol bobl reoledig.
- Mae estyniad y Gyfundrefn Uwch Reolwyr ac Ardystio (SM&CR) yn gwneud ein rheolau ymddygiad yn berthnasol i gyfarwyddwyr anweithredol. Mae hyn yn amlygu ein gwaith parhaus ar gyfrifoldeb uwch reolwyr i gydymffurfio â'r fframwaith rheoleiddio.
- O ran effeithlonrwydd ac economi, rydym wedi diweddarau'r ffordd yr ydym yn adrodd ar ein Safonau Gwasanaeth, sy'n dangos pa mor effeithlon yr ydym yn cynnal prosesau mewnol penodol. Mae ein dogfen Safonau Gwasanaeth sydd wedi'i ddiweddarau yn rhoi esboniad gwell o'r cysylltiad rhwng effeithlonrwydd ein prosesau a'n canlyniadau.

Mesur perfformiad

Esboniad o'r Genhadaeth yn y 3 haen a ddefnyddiwn i fesur ein perfformiad:

Haen 1: Effeithlonrwydd prosesau mewnol

Rydym yn defnyddio diffiniad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o werth am arian fel 'y defnydd gorau posibl o adnoddau i gyflawni canlyniad a fwriedir'. Rydym wedi gwella'r ffordd yr ydym yn mesur gwerth am arian yn ein prosesau a'r ffordd rydym yn gweithio. Rydym yn cydnabod bod defnyddio ein hadnoddau'n effeithlon hefyd yn cynnwys sut yr ydym yn gwneud y defnydd gorau o'r data a'r wybodaeth sydd ar gael.

Rydym wedi ymrwymo i gyflawni gwerth am arian pan fyddwn yn mynd i'r afael â niwed a chyflawni ein hamcanion. Mae ein llwyddiant wrth gyflawni gwerth cyhoeddus yn dibynnu ar reoli risgiau allweddol o ran staffio ac adnoddau. Rhoesom esboniad o'r modd yr ydym yn rheoli'r risgiau gweithredol hyn yn y bennod ar Lywodraethu Corfforaethol.

Mae ein dogfen Safonau Gwasanaeth yn darparu mesurau o'n safonau gwasanaeth gan ddefnyddio cymysgedd o ymrwymïadau gwirfoddol a rhwymedigaethau statudol. Mae'r safonau hyn yn cwmpasu meysydd gan gynnwys ymholiadau ffôn, ceisiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a llythyrau ASau. Fel yr esboniodd ein Cenhadaeth, roeddem am esbonio deilliannau'n gliriach ac yn ystyrlon. Ym mis Medi 2017, fe wnaethom ddiweddarau'r ddogfen hon i sicrhau ei bod yn esbonio'r cyswllt rhwng canlyniadau ac effeithlonrwydd ein prosesau'n well.

Haen 2: Effaith ein hymyriadau

Ym mis Ebrill, fe wnaethom gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad ein hymagwedd at werthuso ôl-ymyriad. Mae hyn yn esbonio sut y byddwn yn asesu effeithiolrwydd ymyriadau allweddol bob blwyddyn. Ar gyfer prosiectau llai, edrychwn ar fesurau neu ddangosyddion allweddol sy'n awgrymu effaith darnau gwaith unigol o fewn y thema sector neu draws-sector perthnasol.

Haen 3: Canlyniadau yn y sectorau yr ydym yn eu rheoleiddio

Yn yr adroddiad hwn, mae pob un o'n themâu traws-sector yn cynnwys adran 'mesur newid' i ddangos a yw'r hyn sy'n sbarduno niwed o dan y thema honno yn newid ai peidio. Defnyddiwn gymysgedd o ddulliau ansoddol a meintiol i ddadansoddi cynnydd o fewn pob thema.

Ar gyfer pob sector, rydym yn defnyddio 'dangosyddion canlyniadau'. Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn darparu gwerthusiad cyflawn o ba mor effeithiol fu ein gwaith, ac nid ydynt yn gosod targedau. Yn lle hynny, maent yn dweud wrthym am gyfeiriad niwed allweddol ac a yw'n cynyddu neu'n gostwng. Yn dilyn adborth ar sut y gallem wella sut rydym yn arfarnu ein gwaith, eleni, sefydlwyd gwaelodlin ar gyfer dangosyddion canlyniadau a bydd yn datblygu dangosyddion pellach yn y dyfodol. Er enghraifft, lle rydym yn defnyddio ffynonellau data pob dwy flynedd fel Financial Lives 2017, rydym bellach yn defnyddio ffynonellau ychwanegol i adeiladu darlun mwy manwl o ganlyniadau dros amser.


Sgoriau cadarn i'r FCA fel rheoleiddiwr effeithiol

Rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2018, cynhalion ni arolwg⁴ ar y cyd â Phanel Ymarferwyr yr FCA, yn gofyn i gwmnïau roi eu barn am yr FCA, effeithiolrwydd y rheoleiddiwr, a bodlonrwydd ar y berthynas reoleiddiol.


Yn yr arolwg diweddaraf, roedd y sgôr gyffredinol gymedrig ar gyfer effeithiolrwydd yr FCA (ffigur 1.1) wedi cynyddu o 7.0 allan o 10 i 7.1. Mae'r sgôr gyffredinol gymedrig sy'n sgorio bodlonrwydd gyda'r berthynas â'r FCA (Ffigur 1.2) hefyd yn parhau i wella; fe gododd o 7.5 allan o 10 i 7.6.

4 Cynhaliwyd arolwg yr FCA a'r Panel Ymarferwyr gan ddefnyddio holiadur ar-lein. Anfonwyd yr holiadur at 12,600 o gwmnïau, gyda dim ond ychydig dros 2,800 yn ymateb. Fe wnaethom strwythuro sampl yr arolwg gan ddefnyddio dyraniad Prif Gategori Busnes y cwmni. Yn ogystal, gwahoddwyd yr holl gwmnïau a ddaeth o fewn trefn Portffolio Sefydlog yr FCA i lenwi holiadur, gyda sampl o gwmnïau eraill yn cael eu dewis. Fe wnaethom hefyd hyrwyddo'r holiadur drwy amrywiaeth o sianeli gan gynnwys cylchlythyr Crynodeb Rheoleiddio'r FCA, Cymdeithasau Masnach a gwahoddiad drwy'r post.

Ffigur 1.1: Sgoriau yn nodi pa mor effeithiol y bu'r FCA wrth reoleiddio'r diwydiant gwasanaethau ariannol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (allan o 10)




Ffigur 1.2: Sgoriau yn nodi boddhad gyda'r berthynas â'r FCA (allan o 10)



Adborth gan ein rhanddeiliaid

Rydym yn comisiynu ymchwil annibynnol bob blwyddyn trwy BritainThinks. Mae hyn yn gofyn i ystod eang o randdeiliaid – gan gynnwys cyrff masnach, sefydliadau defnyddwyr, seneddwyr a'r cyfryngau – am eu barn ynghylch yr FCA. Mae'r ymchwil diweddaraf yn awgrymu bod ein hamcanion diogelu defnyddwyr ac uniondeb y farchnad yn parhau i gael eu hystyried yn bwysicach na hybu cystadleuaeth effeithiol. Fodd bynnag, mae mwy o ymatebwyr yn teimlo bod amcan cystadleuaeth yr FCA yn bwysig.

Ffigur 1.3: Pwysigrwydd pob amcan statudol i'r FCA



2 Gadael yr UE

Yn ein cynllun busnes 2017/18, fe wnaethom nodi gwaith ar oblygiadau Gadael yr Undeb Ewropeaidd fel maes ffocws allweddol. Rydym wedi neilltuo adnoddau sylweddol i gydlynu a rheoli'r gwaith ar adael yr UE ar draws y sefydliad. Disgwyliwn i'r gwaith hwn gynyddu yn 2018/19.

Cyngor technegol i'r Llywodraeth

Yr ydym wedi bod yn cefnogi'r Llywodraeth trwy ddarparu cymorth technegol yn ymwneud â gadael yr Undeb Ewropeaidd. Mae hyn yn cynnwys darparu cyngor technegol ar Fil (Gadael) yr UE a gyflwynwyd gan y Llywodraeth ym mis Gorffennaf 2017 i drosi deddfwriaeth bresennol yr UE yn rheolau domestig.

Gweithio gyda chwmnïau rheoledig

Rydym wedi gweithio gyda chwmnïau rheoledig i ddeall eu cynlluniau sy'n dod i'r amlwg ar gyfer gweithrediadau yn y dyfodol a sut y gallai'r cynlluniau hyn effeithio ar farchnadoedd a defnyddwyr. Rydym wedi cydweithio'n agos â Banc Lloegr ar gwmnïau sy'n cael eu rheoleiddio gan ddau gorff a meysydd o gyfrifoldeb ar y cyd.

Cyfundrefn Caniatâd Dros Dro

Ym mis Rhagfyr 2017, cyhoeddodd y Llywodraeth y byddai'n deddfu, os oes angen, i roi pwerau i reoleiddwyr greu cyfundrefn caniatâd dros dro ar gyfer cwmnïau EEA sydd ar hyn o bryd yn gweithredu yn y DU o dan basbortau sy'n deillio o ddeddfwriaeth yr UE.

Rydym wedi bod yn gweithio ar y cynllun ar gyfer y drefn caniatâd dros dro a gwneud y paratodau gweithredol priodol. Darparwyd gwybodaeth ychwanegol ar y gyfundrefn mewn datganiadau cyhoeddus ym mis Rhagfyr 2017 a mis Mawrth 2018.

Cydweithredu rhyngwladol

Rydym wedi parhau â'n cydweithrediad agos gyda'r Awdurdodau Goruchwyllo Ewropeaidd, awdurdodau cymwys cenedlaethol ac awdurdodau rheoleiddio rhyngwladol eraill ar ein rôl a'n cylch gorchwyl mewn perthynas â gadael yr UE, ac ar faterion ehangach sy'n ymwneud â rheoleiddio gwasanaethau ariannol trawsffiniol.

3 Ein blaenoriaethau traws sector

Diwylliant a threfniadau llywodraethu cwmnïau

Mae diwylliant a llywodraethu effeithiol yn lleihau'r risg o niwed i ddefnyddwyr a marchnadoedd.

Rydym wedi bod yn edrych ar yr hyn sy'n gyrru ymddygiad cwmnïau. Ein nod yw asesu a mynd i'r afael â'r ffactorau sy'n arwain at ymddygiad sy'n debygol o achosi niwed o'n safbwynt fel rheoleiddiwr – pwrpas, arweinyddiaeth, dull gwobrwyo a rheoli pobl cwmni a'i drefniadau llywodraethu.

Nid ydym yn ystyried mai rôl y rheoleiddiwr ydy gosod un diwylliant, derbyniol. Ond rydym yn rhoi blaenoriaeth uchel i sicrhau bod unigolion, yn enwedig uwch reolwyr, yn atebol am eu hymddygiad ac yn addas ac yn briodol ar gyfer eu rolau. Rydym hefyd yn canolbwyntio ar sicrhau nad yw cydnabyddiaeth a gwobrau eraill staff yn creu'r cymhellion anghywir a bod trefniadau llywodraethu yn darparu ar gyfer cwmnïau i nodi a lliniaru risgiau niwed yn effeithiol a diogelu chwythwyr chwiban yn effeithiol.

Rydym hefyd yn anelu at ysgogi dadl a chonsensws ar arferion da a safonau ar draws, rhanddeiliaid sector allweddol sy'n gydnaws â'n hamcan strategol o sicrhau bod y marchnadoedd rydym yn eu rheoleiddio'n gweithredu'n dda. Mae enghreifftiau isod o'r gwaith a gwblhawyd eleni i hybu ein hamcanion diogelu defnyddwyr ac uniondeb y farchnad.

Monitro newid

Rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar gynnydd cwmnïau wrth wreiddio meysydd allweddol o'n diwylliant a'n blaenoriaeth lywodraethu, sy'n cynnwys atebolrwydd, a gyflwynir drwy'r Gyfundrefn Uwch Reolwyr ac Ardystio (SM&CR) a chydabyddiaeth.

Mae'r SM&CR yn cael ei weithredu'n llawn mewn cwmnïau derbyn adneuon a chwmnïau buddsoddi a reoleiddir gan ddau gorff. Yr ydym wedi derbyn adborth cadarnhaol yn gyffredinol gan y diwydiant, lle mae wedi arwain at atebolrwydd uwch reolwyr cliriach.

Roedd ein goruchwyliaeth arferol o bolisiau ac arferion talu yn y cwmnïau lefel un (y rheini sy'n cymryd adnau a chwmnïau buddsoddi gyda chyfanswm mantolen dros £50 biliwn) wedi canfod eu bod yn parhau i wreiddio ymddygiad a diwylliant yn eu mesurau cydnabyddiaeth ac yn addasu gwobrau i adlewyrchu perfformiad gwael sylweddol a chamymddwyn.

Sicrhau nad yw cymhellion staff yn hybu ymddygiadau sy'n achosi niwed

Cyhoeddassom reolau newydd ar sut y dylai cwmnïau credyd defnyddwyr reoli risgiau sy'n codi o'r ffordd y maent yn talu eu staff ac yn rheoli eu perfformiad. Fe wnaethom hefyd gyhoeddi canllawiau di-lawlyfr i helpu cwmnïau i nodi nodweddion eu cynlluniau cymhellion neu reoli perfformiad a allai niweidio defnyddwyr, boed hynny trwy gam-werthu neu ymddygiad gwael arall.

Mae'r canllawiau hyn hefyd yn awgrymu sut gall cwmnïau reoli'r risgiau hyn yn fwy effeithiol. Daw'r polisi newydd i rym ar 1 Hydref 2018. Yn y pen draw, rydym yn bwriadu asesu effaith y rheolau a'r canllawiau newydd trwy adolygu sut mae cwmnïau credyd defnyddwyr wedi ymateb iddynt.

Atebolrwydd

Mae'r FCA ac, ar gyfer cwmnïau sy'n cael eu rheoleiddio gan ddau gorff, yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus (PRA) a'r FCA, yn cymeradwyo Uwch Reolwyr. Mae'r SM&CR yn rhan allweddol o'n rhaglen ddiwylliant a llywodraethu. Mae'n gosod isafswm safonau ymddygiad synnwyr cyffredin ar gyfer staff gwasanaethau ariannol ar bob lefel ac yn egluro meysydd cyfrifoldeb Uwch Reolwyr. Mae'r gyfundrefn yn ei gwneud hi'n glir bod pob unigolyn mewn cwmni yn gyfrifol ac yn atebol am eu hymddygiad eu hunain a bod Uwch Reolwyr hefyd yn gyfrifol ac yn atebol am gymryd camau rhesymol i sicrhau ymddygiad da yn eu meysydd cyfrifoldeb. Yn olaf, mae'r gyfundrefn wedi'i chynllunio i sicrhau bod yr unigolion hynny sydd â'r potensial mwyaf i wneud niwed yn addas ac yn briodol. Mae'n rhaid i gwmnïau adolygu unigolion pwysig eraill yn flynyddol ac ardystio eu bod yn addas ac yn briodol.

Ym mis Mai 2017, cafodd y gyfundrefn ei hymestyn a oedd yn golygu bod ein rheolau ymddygiad yn berthnasol i gyfarwyddwyr anweithredol. Ar yr un pryd, cyhoeddwyd arweiniad i esbonio sut y byddwn yn gorfodi'r Ddyletswydd Cyfrifoldeb. Mae'r pŵer hwn yn ein galluogi i weithredu yn erbyn uwch reolwyr cwmnïau SM&CR os na fyddant yn cymryd camau rhesymol i osgoi torri rheolau, neu barhad hynny, mewn gweithgareddau y maent yn gyfrifol am eu rheoli.

Mae'r SM&CR wedi bod yn berthnasol i'r rheini sy'n cymryd adnau a chwmnïau buddsoddi sy'n cael eu rheoleiddio gan ddau gorff ers mis Mawrth 2016. Mae bellach wedi'i hymgorffori yn ein prosesau awdurdodi, goruchwyllo a gorfodi, gan ganiatáu inni ganfod a chanolbwyntio ar unigolion allweddol sy'n atebol yn y cwmnïau hyn.

Yn 2016, rhoddodd y Senedd ddyletswydd i ni ymestyn y SM&CR i'r rhan fwyaf o'r cwmnïau yr ydym yn eu rheoleiddio. Y llynedd, cyhoeddwyd papurau ymgynghori ar ein dyluniad arfaethedig o'r gyfundrefn estynedig hon ac ar sut yr ydym yn bwriadu symud cwmnïau ac unigolion iddi.

Diogelu a hybu siarad allan o fewn cwmnïau

Rydym wedi galluogi mwy o staff mewn cwmnïau i weithredu fel chwythwyr chwiban, i gynyddu lefel y wybodaeth werthfawr a gawn am niwed gwirioneddol neu bosibl. Mae hi'n anodd chwythu'r chwiban fel arfer. Felly rydyn ni nawr yn cynnig cyfarfod i bawb sy'n chwythu'r chwiban i wella eu hymddiriedaeth ac adlewyrchu'r gwerth a osodwn arnyn nhw. Rydym yn gwybod y gall chwythwyr chwiban ddod i unrhyw ran o'r FCA gyda gwybodaeth, felly rydym hefyd wedi cyflwyno hyfforddiant i helpu holl staff yr FCA i adnabod chwythwyr chwiban a thrin yr hyn y maent yn ei ddweud wrthym yn unol â hynny.

Defnyddiwn ystod o ddata chwythwyr chwiban i ddangos a yw cwmnïau'n gweithredu'n briodol ar wybodaeth a roddir iddynt ac i fod yn dryloyw ynghylch sut yr ydym yn ymateb i ddigwyddiadau. Eleni rydym:

- Wedi rheoli 1,106 o achosion gan chwythwyr chwiban. O'r rhain, credwn yn rhesymol fod 649 yn ddatgeliadau cymwys o fewn ein cylch gwaith, nid yw 307 o'r achosion yn gymwys. Nid ydym eto wedi gallu penderfynu a yw'r 150 sy'n weddill yn gymwys ai peidio.
- Penderfynwyd cymryd camau pellach ar 121 datgeliad y credwn yn rhesymol sy'n ddatgeliadau cymwys. Rydym yn dal i asesu 128 datgeliad pellach i benderfynu a ddylem gymryd camau pellach ai peidio.

Mae datgeliadau chwythu'r chwiban yn ffynhonnell wybodaeth hanfodol ac unigryw i ni. Maent yn dangos ein bod wedi gweithredu'n unol â'n hamcan strategol i sicrhau bod marchnadoedd perthnasol yn gweithio'n dda, ac maen nhw'n ein cynorthwyo i gyflawni ein hamcanion gweithredol i ddiogelu defnyddwyr ac uniondeb y marchnadoedd ariannol. Maent yn gwneud hyn drwy ein galluogi ni i gymryd camau gorfodi yn erbyn cwmnïau ac unigolion, darparu goruchwyliaeth effeithiol trwy ein gwaith gyda chwmnïau neu waith thematig, a deall yn well ymddygiad y cwmnïau a reoleiddiwn.

Hybu ffocws gweithredol ar ddiwylliannau cwmnïau

Mae diwylliannau'r cwmnïau'n siapio ymddygiad a gallant sbarduno ymddygiad sy'n niweidio defnyddwyr a marchnadoedd. Felly rydym wedi annog cwmnïau i ganolbwyntio'n weithredol ar eu diwylliannau yn unol â'n hamcan i ddiogelu defnyddwyr. Rydym hefyd wedi ymgymryd â nifer o fentrau i geisio darparu arweinyddiaeth meddwl yn y maes hwn, gan hybu trafodaeth o wahanol safbwyntiau i gyflymu cyflymder newid diwylliannol.

Er enghraifft, ym mis Mawrth 2018, fe wnaethom gyhoeddi papur trafod ar drawsnewid diwylliant o fewn gwasanaethau ariannol. Mae'r papur yn gasgliad o 28 o draethodau, gan roi safbwyntiau arweinwyr yn y diwydiant, academyddion ac ymarferwyr. Ar ôl cyhoeddi'r papur fe wnaethom gynnal cynhadledd i hybu trafodaeth ehangach ar y pynciau hyn.

Daeth nifer o themâu i'r amlwg o'r gynhadledd, gan gynnwys yr angen i:

- sicrhau bod cwmnïau'n creu amgylcheddau o 'ddiogelwch seicolegol', lle mae siarad yn dod yn norm

- sicrhau cydraddoldeb a chynhwysiant
- darparu gwell cefnogaeth, gwella gallu a grym i reolwyr canol sy'n cael eu gwasgu
- defnyddio ein gohebiaeth goruchwylio a herio cwmnïau i siapio diwylliannau iach, o ystyried barn llawer o gyfranogwyr ar rôl gyfyngedig rhagor o reolau
- edrych ar ystod eang o gymhellion i siapio ymddygiad, gan gynnwys y rhai sy'n mynd y tu hwnt i gydnabyddiaeth a chymhellion ariannol eraill

Rydym yn adolygu canlyniadau'r gynhadledd i benderfynu pa gamau nesaf y dylem eu cymryd yn y gwaith hwn.

Adrodd i Grŵp Ailstrwythuro Byd-eang Royal Bank of Scotland

Yn 2014, penodwyd Person Medrus o dan adran 166 o Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000 (FSMA) i gynnal adolygiad annibynnol o sut roedd Royal Bank of Scotland (RBS) yn trin cwsmeriaid busnesau bach a chanolig (SME) a oedd wedi eu trosglwyddo i'w Grŵp Ailstrwythuro Byd-eang (GRG) rhwng 2008 a 2013. Comisiynwyd yr adolygiad mewn ymateb i honiadau mewn adroddiad a gyhoeddwyd gan Dr Lawrence Tomlinson a rhai o'r argymhellion yn dilyn Adolygiad Benthycy Annibynnol RBS Syr Andrew Large (23 Tachwedd 2013).

Ni chaiff benthycy masnachol ei reoleiddio i raddau helaeth yn y DU, sy'n golygu nad oedd rheolau 'cynnal busnes' ar gyfer asesu sut roedd y GRG yn trin cwsmeriaid SME. Felly, asesodd y Person Medrus y GRG yn erbyn gofynion cyfreithiol a chytundebol perthnasol a'r safonau a osodwyd gan RBS ei hun.

Er ein bod yn cydnabod y bu llawer o ddiddordeb gan y cyhoedd yn Adroddiad y Person Medrus, mae gennym rwymedigaethau cyfreithiol clir o dan adran 348 o FSMA sy'n gofyn i ni gael caniatâd pawb y cawsom wybodaeth oddi wrthynt, ac unrhyw un arall y mae'r wybodaeth yn ei grybwyll, cyn y gallwn ddatgelu'r adroddiad yn gyfreithlon. Mae'n rhaid i ni hefyd roi cyfle teg i unrhyw un yn yr adroddiad ymateb i'r feirniadaeth honno cyn ei gyhoeddi.

Daethom i'r casgliad felly mai'r ffordd orau ymlaen oedd cyhoeddi crynodeb estynedig o'r adroddiad. Ein hegwyddor arweiniol wrth ddrafftio'r crynodeb oedd cydbwysu'n hawydd i roi cymaint o wybodaeth â phosibl i fusnesau bach a'r cyhoedd yn gyffredinol am gynnwys yr adroddiad gyda'n rhwymedigaeth fel awdurdod cyhoeddus i weithredu'n deg tuag at y partion y mae'n bosibl yr effeithir arnynt sydd â hawliau cyfreithiol.

Comisiynodd Pwyllgor Dethol y Trysorlys (TSC) adolygiad annibynnol gan Andrew Green QC i benderfynu a oedd crynodeb ein drafft terfynol yn driw i'r prif adroddiad mewn sylwedd a thôn. Mae ei ganfyddiadau wedi'u cyhoeddi gan y TSC, sef ein bod yn deg ar y ddau gyfrif.

Yn dilyn cyhoeddi ein crynodeb terfynol ym mis Chwefror 2018, a chydabod budd y cyhoedd yn yr adroddiad llawn heb ei drin, dechreuom y broses o ofyn am ganiatâd gan y bobl angenrheidiol. Fodd bynnag, ystyriodd Pwyllgor Dethol y Trysorlys fod hwn yn achos eithriadol, ac o dan Reol Sefydlog 152, roedd yn rhaid inni gynhyrchu'r adroddiad

llawn iddo, er gwaethaf darpariaethau adran 348. Yn y pen draw, penderfynodd ddefnyddio Braint Seneddol i gyhoeddi'r adroddiad.

Rydym yn parhau i ymchwilio i'r materion sy'n codi o'r Adroddiad Person Medrus a byddwn yn ystyried a oes unrhyw sail ar gyfer gweithredu pellach, gan nodi bod y mwyafrif o weithgareddau GRG y RBS y tu allan i'r perimedr rheoleiddiol ac yn dyddio'n ôl i gyfnod cyn y Gyfundrefn Uwch Reolwyr ac Ardystio.

Troseddau ariannol ac atal gwyngalchu arian (AML)

Mae troseddau ariannol yn niweidio cymdeithas a'r economi ehangach. Mae'n achosi colled ariannol i ddioddefwyr, yn cyfoethogi troseddswyr ac yn cefnogi gweithgarwch troseddol difrifol. Mae maint a natur fyd-eang diwydiant ariannol y DU yn golygu bod gwyngalchu arian, a'r troseddoldeb sy'n galw am arian wedi'i wyngalchu, yn cyflwyno risgiau sylweddol i'r DU ac yn tanseilio uniondeb system ariannol y DU.

Ein nod yw gwneud marchnadoedd ariannol y DU yn lle anodd i droseddswyr. Rydym hefyd am sicrhau bod system ariannol y DU yn wydn yn erbyn eu gweithgareddau ac yn lle mwy diogel i gwsmeriaid. Felly, pan fyddwn yn dylunio mesurau diogelu, mae angen inni sicrhau eu bod yn gymesur, yn effeithlon, ac yn lleihau unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn sgil rheoleiddio.

Rydym hefyd am leihau ac atal y niwed a achosir gan sgamiau a chynyddu ymwybyddiaeth defnyddwyr o risgiau twyll.

Mae mwy o fanylion ar ein gwaith i fynd i'r afael â gwyngalchu arian ar gael yn ein Hadroddiad Atal Gwyngalchu Arian.

Monitro newid mewn rheolaethau atal gwyngalchu arian cwmnïau

Rydym wedi cryfhau ein gwaith goruchwyllo atal gwyngalchu arian yn ystod y blynnyddoedd diwethaf. Daethpwyd o hyd i wendidau difrifol mewn rhai banciau mawr a chwmnïau llai yn ystod ein gwaith cychwynnol. Ond mae canfyddiadau diweddar wedi bod yn galonogol. Rydym wedi rhoi pwyslais ar sicrhau bod banciau mawr yn cydnabod bod atal gwyngalchu arian yn fater sydd angen sylw gan uwch reolwyr, a thôn gref o'r brig, er ein bod yn gwybod y bydd yn cymryd amser ar gyfer yr holl welliannau sydd eu hangen i hidlo trwy sefydliadau mwy. Mewn cwmnïau llai sydd â risg uwch, rydym wedi gweld arwyddion o ymgysylltiad llawer gwell gan uwch reolwyr, a gwelliannau o ganlyniad yn eu rheolaethau AML.

Ym mis Rhagfyr 2016, cyflwynwyd ein ffurflen trosedd ariannol gyntaf i gwmnïau ei llenwi. Yn unol â'n hamcan uniondeb y farchnad, rydym wedi defnyddio'r data hyn eleni i helpu i nodi cwmnïau sydd â risg gynhwysfawr o wyngalchu arian a gwella sut rydym yn nodi risgiau a thueddiadau yn y diwydiant.

Fe wnaethom gyfrannu'n sylweddol at Adolygiad Gwerthuso Cyffredin y Tasglu Gweithredu Ariannol o gyfundrefn atal gwyngalchu arian y DU. Disgwylir iddo gael ei gyhoeddi tua diwedd 2018. Wrth i ni barhau i adolygu ein hymagwedd at oruchwyllo troseddau ariannol, byddwn yn ystyried canfyddiadau a gwersi yr adolygiad hwn.

Gweithredu'r Bedwaredd Gyfarwydddeb Gwyngalchu Arian

Daeth Rheoliadau Gwyngalchu Arian, Ariannu Terfysgwyr a Throsoglwyddo Arian (Gwybodaeth am y Talwr) 2017 (MLRs 2017) i rym ar 26 Mehefin 2017. Maent yn diweddar cyfundrefn atal gwyngalchu arian y DU yn unol â Phedwerydd Cyfarwyddyd

atal gwyngalchu arian yr UE ac yn dod â dull cryfach, seiliedig ar risg, i atal gwyngalchu arian. Cyn gweithredu, fe wnaethom ymgynghori ar gynigion i sicrhau bod ein polisïau a'n gweithdrefnau ar gyfer defnyddio ein pwerau o dan y MLRs 2017 yn gyfoes, yn effeithiol ac yn gymesur. Fe wnaethom gyhoeddi Datganiad Polisi ym mis Gorffennaf 2017.

Ymagwedd gymesur at bobl sy'n amlwg yn wleidyddol (PEPs)

Ym mis Gorffennaf 2017, fe wnaethom hefyd gyhoeddi canllawiau ar sut y dylai cwmnïau drin cwsmeriaid sydd wedi'u diffinio fel PEP yn y MLRs newydd 2017. Mae'r canllawiau hyn yn ei gwneud yn gliriach sut y dylai cwmnïau ddefnyddio'r diffiniad i gwsmeriaid y DU, ac mae'n ei gwneud yn glir ei bod hi'n annhebygol y byddai nifer fawr o gwsmeriaid y DU yn bodloni'r diffiniad. O ganlyniad, dylai PEP y DU fod â risg is na PEPs o wledydd sydd â lefelau uchel o lygredigaeth.

Sicrhau safonau uchel a chyson ar draws goruchwyliaeth AML

Yn 2017, cyhoeddodd y llywodraeth y byddai'n creu Swyddfa Goruchwyllo Atal Gwyngalchu Arian ar gyfer Cyrff Cyhoeddus (OPBAS). Mae OPBAS yn rhan o'r FCA ac maent wedi dechrau goruchwyllo goruchwylwyr corff proffesiynol AML ers 1 Chwefror 2018. Bydd OPBAS yn sicrhau safon gadarn a chyson o oruchwyliaeth AML ar draws y sectorau cyfreithiol a chyfrifyddu ac yn galluogi rhannu gwybodaeth yn well rhwng yr arolygwyr ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith.

Lleihau niwed a achosir gan sgamiau

Mae ein hymgyrch ScamSmart yn ceisio rhoi gwybodaeth ac adnoddau i ddefnyddwyr sy'n wynebu risg er mwyn eu hatal rhag dioddef twyll buddsoddi. Mae'n rhybuddio'r bobl dros 55 am arwyddion sgamiau a hefyd yn hyrwyddo ein Rhestr Rhybuddio. Mae hwn yn offeryn sy'n helpu defnyddwyr i ddarganfod mwy am risgiau buddsoddiad a chwilio rhestr o gwmnïau yr ydym yn gwybod sy'n gweithredu heb ein hawdurdod.

Ym mis Ionawr 2018, lanswyd cam newydd o'r ymgyrch hon. Roedd yn cynnwys gweithgarwch hysbysebu a chyfryngau cymdeithasol, a gyhoeddwyd gennym trwy bartneriaid gan gynnwys banciau, darparwyr pensiwn, grwpiau defnyddwyr, rheoleiddwyr eraill a sefydliadau atal troseddau.

Bu cyfanswm o 445,000 o ddefnyddwyr ar safle ScamSmart yn 2017/18 a gwiriodd 53,000 fuddsoddiad ar y Rhestr Rhybudd, a oedd wedi cynyddu o 320,000 a 26,000 yn 2016/17.

Ochr yn ochr â'n gwaith ScamSmart, rydym yn parhau i fonitro, i fesur ac i fynd i'r afael ag achosion o gam-werthu pensiynau a thwyll sy'n ymwneud â'r cwmnïau rydym yn eu rheoleiddio, a chwmnïau heb eu rheoleiddio sy'n gweithio gyda nhw.

Eleni, rydym wedi gweithio gyda'r Trysorlys a'r Adran Gwaith a Phensiynau ar fesurau deddfwriaethol i fynd i'r afael â sgamiau pensiwn, gan gynnwys gwaharddiad ar alwadau di wahoddiad ynghylch pensiynau. Yn ddiweddar, rydym wedi cyhoeddi ein bod yn bwriadu casglu data gan bob cwmni sy'n dal ein caniatâd ar drosglwyddiadau pensiwn er mwyn ni asesu'n drylwyr sut maen nhw'n defnyddio'r caniatâd hwn.

Dealltwriaeth a gweithio mewn partneriaeth i atal troseddau ariannol.

Rydym yn parhau i gydweithio yn ddomestig ac yn rhyngwladol gydag asiantaethau gorfodi'r gyfraith, y Llywodraeth a rheoleiddwyr eraill i atal troseddau ariannol. Yn arbennig, rydym yn helpu i ddatblygu a chryfhau gweithio mewn partneriaeth gyda'r sector cyhoeddus a phreifat i gefnogi rhaglen ddiwygio troseddau economaidd y Llywodraeth. Rydym hefyd yn parhau i gyfrannu at Cyd-dasglu Twyll y Llywodraeth.

Hybu cystadleuaeth ac arloesedd

Ein mandad i hybu cystadleuaeth yw'r prif reswm dros ein gwaith ar Dechnoleg Ariannol, a elwir yn FinTech, sy'n parhau i drawsnewid cynnyrch a gwasanaethau cwmnïau. Mae'r twf mewn banciau, cyfrifon cynilo a thaliadau ar-lein yn unig wedi newid disgwyliadau defnyddwyr am bris a chyflenwi. Mae arloesi hefyd wedi ei gwneud hi'n haws i ddefnyddwyr siopa o gwmpas: defnyddiodd dros 25 miliwn o bobl safleoedd cymharu prisiau yn 2016.⁵

Ar ei orau, mae arloesi yn hybu cwmnïau i gystadlu i gynnig gwasanaethau gwerth gwell, newydd. Mae hyn yn cynyddu dewis, yn lleihau costau'r diwydiant ac yn caniatáu i gwmnïau a defnyddwyr gyfathrebu'n fwy uniongyrchol. Ond gall hefyd greu niwed. Gall defnyddwyr ei chael yn anodd ei ddeall a dewis rhwng gwasanaethau a chynnyrch sy'n gymhleth yn dechnegol. O ganlyniad, efallai y byddant yn prynu cynnyrch anaddas neu'n methu asesu risgiau buddsoddi yn gywir. Mae'r enghreifftiau isod yn dangos sut mae ein gwaith eleni wedi datblygu ein hamcan cystadleuaeth.

Rydym am gynnal amgylchedd rheoleiddio sy'n helpu defnyddwyr a chwmnïau i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sy'n cystadlu, arloesi a chynnig data mawr, gan atal neu leihau niwed i helpu i sicrhau bod y marchnadoedd rydym yn eu rheoleiddio'n gweithio'n dda. Er enghraifft, yn ystod 2017, ehangodd ein Huned Gyngor ei chwmpas i gynnwys cwmnïau sy'n datblygu modelau cyngor awtomataidd o fewn y sectorau morgais, yswiriant cyffredinol a chyngor ynghylch dyledion. Mae'r Uned Gyngori nawr yn derbyn cwmnïau sydd am roi arweiniad yn hytrach na chyngor rheoledig, yn ogystal â chwmnïau nad ydynt yn bwriadu ceisio awdurdodiad. O hyn, byddwn yn gallu rhoi adborth rheoleiddiol i gwmnïau sy'n cynnig ystod ehangach o wasanaethau. Mae'r Uned hefyd yn derbyn ceisiadau trwy gydol y flwyddyn nawr, yn hytrach na chyfnodau penodol i gyflwyno cais. Mae'r enghraifft hon yn dangos sut mae ein gwaith ar gystadleuaeth yn cyd-fynd â'n hamcan strategol i sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio'n dda.

Yn dilyn ymgynghoriad, ym mis Rhagfyr 2017, cyhoeddassom hefyd ganllawiau gan yr Uned Gyngori. Mae'r canllaw hwn yn rhannu elfennau o'n gwaith â chwmnïau er mwyn i'r farchnad ehangach ddefnyddio'r eglurder ychwanegol ar ein rheolau.

Monitro newid

Rhaid i gwmnïau FinTech fuddsoddi symiau sylweddol i ddod â'u cysyniadau arloesol i'r farchnad a sicrhau eu bod yn bodloni ein gofynion rheoliadol. Gall hyn fod yn rhwystro i newydd-ddyfodiaid. Mae ein blwch tywod rheoleiddiol, rhan o'n rhaglen Innovate ehangach, yn rhoi cyfle i fusnesau o bob maint brofi a yw'r cysyniadau hyn yn cwrdd â gofynion rheoliadol cyn iddynt fuddsoddi rhagor ynddynt. Mae hefyd yn rhoi mesurau diogelu pwysig i ddefnyddwyr ac yn ein helpu i ddeall y cyfleoedd a'r niwed y gall arloesi ei greu.

5 <https://assets.publishing.service.gov.uk/media/58e224f5e5274a06b3000099/dcts-consumer-research-final-report.pdf> a cy.ons.gov.uk/businessindustryandtrade/itandinternetindustry/datasets/internetusers.

Cawsom 77 o geisiadau am ail gam y blwch tywod rheoleiddiol, cynnydd yn y niferoedd o'r cam cyntaf (69). Fe wnaethom hefyd gefnogi 24 o gwmnïau i gwblhau profion, sy'n dymor byr a graddfa fach. Rydym wedi gweithio gyda'r cwmnïau blwch tywod i gytuno ar bamedrau'r profion hyn er mwyn sicrhau y caiff mesurau diogelwch defnyddwyr eu hadeiladu.

Cawsom 61 o geisiadau am drydydd cam y blwch tywod rheoleiddiol ac ar hyn o bryd rydym yn cefnogi 18 cwmni i brofi eu cysyniadau. Mae ymwybyddiaeth o'n rhaglen Innovate ehangach yn tyfu, gyda dros 1,000 o geisiadau am gefnogaeth ers ei sefydlu. Cyrhaeddodd bron i hanner y rhain ein meini prawf trothwy ac maen nhw wedi derbyn cefnogaeth gennym ni.

Astudiaethau Marchnad

Rydym wedi defnyddio astudiaethau marchnad i hybu ein hamcan cystadleuaeth trwy asesu sut mae marchnad yn gweithio ac a allai weithio'n well. Er enghraifft, yn ystod 2017/18 rydym wedi dadansoddi cystadleuaeth mewn Rheoli Asedau, Broceriaid Yswiriant Cyfanwerthu a Chardiau Credyd. Mae mwy o fanylion i'w gweld ar dudalennau sector perthnasol ac yn ein [Hadroddiad ar Gystadleuaeth](#).

Dylanwadu ar arloesedd rhyngwladol

Mae Innovate yr FCA yn hyrwyddo'r DU fel canolfan ar gyfer arloesi mewn gwasanaethau ariannol trwy ei hymgyssylltiad rhyngwladol, trwy gefnogi cwmnïau tramor arloesol i ymuno â marchnad y DU. Mae hefyd yn cefnogi cwmnïau arloesol y DU sy'n ehangu i farchnadoedd tramor, gan eu gwneud, o bosibl, yn herwyr mwy cynaliadwy yn y DU.

Mae rheoleiddwyr mewn gwledydd eraill yn mabwysiadu ein hymagwedd Innovate. Rydym wedi arwyddo nifer o gytundebau cydweithredu â rheoleiddwyr tramor.⁶

Innovate yr FCA a Blwch Tywod: Cynyddu datblygiad cynnyrch newydd

Eleni, dechreuon ni adolygu syniadau a gwersi a ddysgwyd o brofion ers i ni lansio'r blwch tywod yn 2016.

Mae canfyddiadau cynnar yn awgrymu bod y blwch tywod yn darparu'r manteision y bwriadwyd eu cyflawni. Mae gennym dystiolaeth ei fod yn galluogi profi cynnyrch newydd yn effeithiol Mae wedi lleihau'r amser a'r gost o gael syniadau arloesol i'r farchnad, gwell mynediad at gyllid ar gyfer arloeswyr a sicrhau y caiff mesurau diogelu priodol eu hadeiladu i gynnwys a gwasanaethau newydd yn gynnar.

Byddwn yn defnyddio'r canfyddiadau hyn i helpu i siapia ein datblygiadau blwch tywod yn y dyfodol yn ogystal â'n gwaith parhaus i wneud gwaith pwrrpasol a goruchwyllo.

6 Eleni, roedd hyn yn cynnwys: Awdurdod Yswiriant Hong Kong (Medi 2017); Comisiynydd Diogelwch a Dyfodol Hong Kong (Mai 2017); Cytundeb i gydweithredu gyda Chomisiynydd Masnachu Dyfodol Nwyddau'r Unol Daleithiau (Chwefror 2018); Cytundeb cydweithredu gwell gyda Chomisiynydd Gwarantau a Buddsoddiadau Awstralia (Mawrth 2018)

Dros y 2 gam cyntaf o'r blwch tywod, gwelwyd amrywiaeth gynyddol yn y mathau o sectorau sy'n gwneud cais i ni, a chyfran fwy o geisiadau gan gwmnïau y tu allan i Lundain.

Defnyddio technoleg i wella effeithlonrwydd adrodd

Rydym yn edrych yn rheolaidd ar sut y gallwn wneud ein gwaith rheoleiddio yn fwy effeithlon trwy dechnoleg. Gall rheoleiddio sy'n cynnwys costau uchel a phrosesau aneffeithlon gyfyngu ar gystadleuaeth a golygu bod cwmnïau'n trosglwyddo costau uwch i ddefnyddwyr. Drwy ddefnyddio technolegau a gynlluniwyd yn benodol i ddatrys heriau rheoleiddio cwmnïau gallwn ychwanegu at y gwerth cyhoeddus a ddarparwn fel rheoleiddiwr.

Cynhaliwyd digwyddiad TechSprint ym mis Tachwedd 2017. Roedd hwn yn edrych ar sut y gallai technoleg ei gwneud hi'n haws i gwmnïau fodloni eu gofynion adrodd rheoliadol a gwella ansawdd eu gwybodaeth. Datblygodd y digwyddiad brawf o gysyniad a oedd yn dangos potensial proses gwbl awtomataidd i gwmnïau ddarparu eu ffurflenni rheoleiddiol. Gallai cyflwyno'r dechnoleg hon i'n proses adrodd rheoleiddiol gynnig manteision sylweddol i reoleiddwyr ac i cwmnïau. Mae'r rhain yn cynnwys arbed costau sylweddol i'r diwydiant, cynyddu eglurder ein rheolau, a chaniatáu inni nodi a monitro materion a risgiau'n fwy effeithlon, i ddiagnosio niwed ac ymyrryd yn gynharach.

Fe wnaethom gyhoeddi Galwad am Fewnbwn gan ofyn am farn ar y prawf o gysyniad yn ogystal ag ar oblygiadau cyfreithiol, masnachol ac eraill cysylltiedig i ni ac i'r diwydiant pe baem yn symud tuag at y dull newydd hwn.

Cydbwyso'n hymagwedd at dechnoleg newydd

Eleni fe wnaethom gyhoeddi Papur Trafod ar Dechnoleg Cyfriflyfr wedi'i Dosbarthu (DLT). Awgrymodd yr ymatebion fod ein rheolau'n ddigon hyblyg i gwmnïau rheoledig ddefnyddio DLT. Roeddent hefyd yn cytuno y gallai DLT ddarparu gofynion rheoleiddiol yn fwy effeithlon na systemau cyfredol, gan leihau costau'n sylweddol ar gyfer cwmnïau a rheoleiddwyr.

Byddwn yn cydweithio â'r diwydiant a chyrff rheoleiddio cenedlaethol a rhyngwladol i siapio datblygiadau a safonau rheoleiddiol ar DLT.

Ddiwedd 2017, fe wnaethom gyhoeddi rhybuddion i ddefnyddwyr ar gryptoasedau, Contractau ar gyfer Gwahaniaeth a risgiau Cynigion Ceiniogau Cychwynnol (ICOs). Ym mis Mawrth 2018 sefydlwyd tasglu hefyd gyda Banc Lloegr a'r Trysorlys i ddatblygu ein syniadau polisi ar gryptoasedau.

Yr Uned Sefydlu Banciau Newydd

Wedi'i lansio yn 2016, mae'r Uned Sefydlu Banciau Newydd yn fenter ar y cyd rhwng yr FCA a'r Awdurdod Rheoleiddio Darbodus. Mae'n darparu gwybodaeth a chefnogaeth i fanciau newydd posibl, gan esbonio'r gofynion rheoleiddiol, gan eu helpu trwy'r broses awdurdodi a darparu cefnogaeth ar ôl cael eu hawdurdodi. Ei nod yw annog cystadleuaeth, gyrru arloesedd a mynd i'r afael â niwed a achosir gan ddiffyg dewis cynnyrch, mynediad i'r farchnad a phrisiau uchel.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi awdurdodi 10 banc newydd, gan gynnwys banciau sy'n darparu cyllid SME, bancio busnes a benthyca defnyddwyr yn ogystal â banciau tramor sy'n sefydlu canghennau yn y DU.

Hyb Awdurdodi Rheoli Asedau

Wedi'i lansio ym mis Hydref 2017, mae'r Hyb Awdurdodi Rheoli Asedau (AMAH) newydd yn ceisio dileu unrhyw rwystrau rheoleiddio diangen i sefydlu a rhedeg cwmni rheoli asedau yn y DU. Mae'r AMAH yn hybu cystadleuaeth, yn rhoi mwy o eglurder ac yn meithrin ymgysylltiad personol mwy cadarnhaol rhwng yr FCA a'r rhai sy'n ymuno â'r farchnad. Ers ei lansio, rydym wedi helpu 12 cwmni trwy gyfarfodydd cyn ymgeisio.

Newid a gwytnwch technolegol

Mae technoleg yn chwarae rhan allweddol yn y broses o gyflwyno cynnyrch a gwasanaethau arloesol. Mae gennym ddyletswydd i hybu arloesedd a herio, i helpu i sicrhau bod technolegau newydd yn cael eu mabwysiadu'n ddiogel. Gall technoleg newydd arwain at ostwng prisiau a darparu gwasanaeth gwell i ddefnyddwyr, ond mae angen ei chyflwyno a'i rheoli'n briodol er mwyn osgoi achosi niwed. Er enghraifft, gall cynigion newydd megis y cwmwl, cyfrifylfr wed'i ddosbarthu (blockchain) a deallusrwydd artiffisial leihau costau i ddefnyddwyr a darparu gwasanaethau'n gyflymach. Ond maent hefyd yn dibynnu'n gryf ar fynediad cwmnïau i ddata sensitif a all, os caiff ei danseilio, niweidio defnyddwyr a difrodi hyder yn y farchnad. Mae'r enghreifftiau isod yn dangos sut mae ein gwaith yn y maes hwn wedi datblygu ein gallu i ddiogelu defnyddwyr a'n hamcanion cystadleuaeth.

Mae angen i gwmnïau a marchnadoedd hefyd ddod yn fwyfwy gwydn i ymyriadau technoleg ac ymosodiadau seiber. Mae hyn yn golygu asesu ac adeiladu gwydnwch yn eu strategaethau cyffredinol, gan berfformio profion a gwerthusiad cadarn, gan nodi materion yn gyflym, gallu adennill yn brydlon a chyflawni iawn amserol lle bo angen. Mae asesu gwydnwch gweithredol cwmnïau yn un o'n blaenoriaethau traws-sector. Ar 5 Gorffennaf, ynghyd â'r PRA a Banc Lloegr, cyhoeddwyd Papur Trafod ar Ddatblygu Dull Awdurdodau Goruchwyliol y DU i Gydnerth Gweithredol. Mae hyn yn amlygu'r angen i ganolbwyntio ar sut i wella gallu'r sector ariannol i wrthsefyll tarfu gweithredol.

Monitro newid

Yn unol â'n hamcanion statudol, ac ymrwymïadau'r Cynllun Busnes, rydym wedi adolygu Technoleg, Gwydnwch a Hunan Asesiadau Seiber o 296 o gwmnïau effaith uchel. Fe wnaethon ni gymharu eu hymatebion i nodi tueddiadau a themâu pendant-benodol, sector a thraws-ddiwydiannol. Rhoesom adborth i'r cwmnïau dan sylw ac i'r sector ehangach. Yn y tymor hir, mae'r gwaith hwn wedi rhoi gwaelodlin i ni y byddwn yn ei defnyddio i ddatblygu ein hasesiadau goruchwyllo yn y dyfodol.

Rydym hefyd wedi sefydlu Grwpiau Cydlynw Seiber, gan ddod â 175 o gwmnïau o bob cwr o'r sector ariannol at ei gilydd i rannu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth o fygythiadau. Fe wnaeth adborth cadarnhaol gan gyfranogwyr ein harwain i sefydlu hyn fel rhan barhaus o'n gwaith gyda chwmnïau.

Fel cwmnïau, mae angen inni sicrhau bod gennym y gallu i ymateb pan fydd digwyddiadau TG a seiber, felly rydym wedi adeiladu Tîm Digwyddiadau penodol i gynyddu ein gallu i wneud hyn. Mae'r tîm hwn hefyd yn dadansoddi patrymau a thueddiadau i helpu i lywio'r blaenoriaethau yn ein gwaith rhagweithiol. Yn dilyn cyflwyno gofynion adrodd newydd ar gyfer pob darparwr gwasanaeth talu o dan y Gyfarwydddeb Gwasanaethau Taliadau Diwygiedig (PSD2), rydym wedi gweld cynnydd amlwg mewn adrodd am ddigwyddiadau gan gwmnïau, gan ddangos gwell dealltwriaeth o'n disgwyliadau. Yn 2017/18 cofnodwyd 326 o ddigwyddiadau (100 cysylltiedig â Seiber / cysylltiedig â Thechnoleg 226), o gymharu â 185 (42 cysylltiedig â Seiber / Technoleg 143) am y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, nid yw newidiadau adrodd yn golygu na ellir cymharu'r ffigurau hyn yn uniongyrchol. Rydym yn parhau i esbonio ein disgwyliadau trwy ein fforymau a'n cyhoeddiadau. Bydd adrodd gwell yn ein helpu i asesu niwed i ddefnyddwyr a achosir gan ymosodiadau a seiber ymosodiadau.

Gwella gwydnwch gweithredol a seiber

Mae cyflymder newid technolegol ac arloesedd yn parhau i herio cwmnïau rheoledig ac rydym wedi gweld gwendidau yn eu dylunio, rheoli a seilwaith eu systemau. Mae gan rai cwmnïau or-ddibyniaeth hefyd ar systemau etifeddiaeth gymhleth. Gall y materion hyn gynyddu'r perygl o oriau a bregusrwydd i seiber ymosodiadau. Rydym yn cydweithio â'r Llywodraeth a rheoleiddwyr cenedlaethol a rhyngwladol eraill i fynd i'r afael â'r bygythiadau a'r gwendidau hyn.

Yn unol â'n hamcan diogelu defnyddwyr, eleni, mae ein perthnasoedd goruchwyllo rhagweithiol gyda chwmnïau mwy a'n gwaith thematig penodol yn asesu gallu cwmnïau i atal a delio ag ymyriadau a seiber ymosodiadau. Roedd yn ystyried ffactorau gan gynnwys llywodraethu priodol, rheoli risg, a threfniadau ymateb i ddigwyddiadau.

Rydym hefyd wedi gwella ein cyfathrebiadau i gwmnïau a chyhoeddwyd, gyda'r PRA, y Trysorlys a'r Ganolfan Seiber Genedlaethol, canllaw ymateb i ddigwyddiad wedi'i ddiweddarau, canllaw graffigyn gwybodaeth ar gyfer cwmnïau ar seiliau diogelwch seiber da a gwefan benodol.

Gwella rhannu a thrin data

O dan yr ail Gyfarwydddeb Gwasanaethau Taliadau (PSD2), mae gan ddarparwyr gwybodaeth cyfrifon a thaliadau cychwynnol a reoleiddir o'r newydd yr hawl, gyda chydsyniad y cwsmer, i gael gafael ar ddata cwsmeriaid a swyddogaeth taliadau. Daw'r newid hwn ar yr un pryd â'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) yn ei gwneud yn ofynnol i fanciau adwerthu mawr ddatblygu Rhyngwynebau Rhaglennu Cais sy'n galluogi mynediad hwn. Rydym yn ymdrin â PSD2 a Bancio Agored yn fwy manwl yn yr Adain Bancio Adwerthu.

O dan y gyfraith diogelu data sy'n bodoli eisoes, mae'n rhaid i'r busnesau hyn ddiogelu data cwsmeriaid ac mae PSD2 yn ei gwneud yn ofynnol i'r busnesau hyn roi mesurau pellach ar waith i'w gadw'n ddiogel.

Daeth y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data Cyffredinol (GDPR) i rym yn y DU ar 25 Mai 2018 a bydd yn gam hanfodol ymlaen wrth wella diogelwch a phreifatrwydd data personol. Rydym wedi cydweithio'n agos â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i gynhyrchu datganiad ar y cyd ar sut y bydd ein rolau a'n rheolau gwahanol yn rhyngweithio o dan GDPR.

Trin cwsmeriaid presennol

Mae cystadleuaeth effeithiol yn dibynnu ar ddefnyddwyr sy'n ymateb i ansawdd a gwerth cynhyrchion, a darparwyr sy'n cystadlu o ganlyniad. Ni ddylai fod yn anfantais fawr i gwsmeriaid presennol. Os na chaiff cwsmeriaid presennol eu trin yn deg, gallant dderbyn gwasanaeth gwael neu dalu taliadau uchel. Er bod llawer o gwmnïau wedi gwneud cynnydd wrth roi'r cwsmeriaid yn fwy cadarn yng nghanol eu modelau busnes, mae angen i lawer wella ymhellach eu safonau wrth drin defnyddwyr presennol.

Ein nod yw sicrhau bod cwmnïau'n trin cwsmeriaid hirdymor yn deg. Mae angen iddynt hefyd roi gwybodaeth dda iddynt am y cynhyrchion a brynwyd ganddynt, gan gynnwys perfformiad a thaliadau. Mae ein gwaith ar adnewyddu yswiriant cyffredinol yn enghraifft o'r modd yr ydym wedi datblygu ein cystadleuaeth a'n hamcanion diogelu defnyddwyr eleni (gweler y tudalennau sector ar Yswiriant Cyffredinol a Gwarchodaeth). Rhoddir mwy o enghreifftiau isod.

Monitro newid

Rydym wedi amlinellu data sy'n ymwneud â chwsmeriaid presennol mewn tudalennau sector penodol yn yr adroddiad hwn. Er enghraifft, bydd y bennod Bancio Adwerthu yn cyfeirio at y data y bydd yn rhaid i gwmnïau roi i gwsmeriaid am gyfrifon cyfredol, yn ogytal â data defnyddwyr ar gyfraddau newid o'n harolwg Financial Lives 2017.

Sicrhau bod cwsmeriaid yn cael gwybodaeth cyn ymddeol

Mae llawer o gwsmeriaid sydd wedi dal cynhyrchion pensiwn gyda chwmni ers amser maith. O ganlyniad, mae cysylltiad clir rhwng llawer o'n gwaith ar bensiynau ac incwm ymddeol a'n ffocws ar sicrhau bod cwsmeriaid presennol yn cael eu trin yn deg. Dyma rai enghreifftiau:

- **Gwybodaeth am flwydd-daliadau** – Ym mis Mai 2017 cyhoeddwyd ein rheolau terfynol yn mynnu bod cwmnïau yn hysbysu defnyddwyr faint y gallent ei gael drwy siopa o gwmpas a newid darparwr, cyn prynu blwydd-dal. Daeth y rheolau hyn i rym ym mis Mawrth 2018. Dylai hyn helpu cwsmeriaid i ddeall manteision ac anfanteision aros gyda'r un darparwr a'u hannog i newid i gynigion gwell.
- **Adolygiad o Ganlyniadau Ymddeol (ROR)** – Ym mis Gorffennaf 2016, lansiwyd yr Adolygiad Canlyniadau Ymddeol (ROR) i asesu sut mae'r farchnad incwm ymddeol wedi esblygu ers y trefniadau rhyddid pensiwn Yn ein hadroddiad interim, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2017, fe wnaethom nodi rhai pryderon sy'n dod i'r amlwg a nodi rhai datrysiadau posibl. Cyhoeddwyd ein hadroddiad terfynol ym mis Mehefin 2018 ochr yn ochr â Phapur Ymgynghori ar y rhan fwyaf o'n meddyginiaethau arfaethedig a cheisio barn ar eraill. Mae'r datrysiadau hyn yn cynnwys mesurau i: warchod defnyddwyr rhag canlyniadau gwael, gwella ymgysylltiad defnyddwyr â'u penderfyniadau ar incwm ymddeol, a hybu cystadleuaeth trwy wneud cost cynhyrchion trawiadol yn gliriach ac yn fwy tebyg.

Sicrhau strategaeth hirdymor ar gyfer morgeisi llog-yn-unig

Ar hyn o bryd mae 1.67 miliwn o gyfrifon morgeisi llog-yn-unig llawn ac ad-dalu rhan o'r cyfalaf yn ddyledus yn y DU. Eleni, fe wnaethom gyhoeddi canfyddiadau ein hadolygiad thematig i drin cwsmeriaid sydd â morgeisi llog-yn-unig cyfredol yn deg. Mae ein pryder yn canolbwyntio'n arbennig ar gwsmeriaid sydd mewn perygl o weld diffyg pan fydd eu morgais yn dod i ddiwedd ei dymor.

Gwelsom fod benthycwyr yn ceisio cyfathrebu â'u defnyddwyr yn weithredol i'w helpu i ddeall strategaethau ad-dalu a darparu atebion priodol a fforddiadwy. Ond mae'n amlwg bod mwy iddyn nhw a ni ei wneud i deilwra'r cyfathrebu hyn yn fwy effeithiol, eu targedu'n well a gwella'r broses ar gyfer ymdrin â chwsmeriaid llog-yn-unig. Er bod benthycwyr yn ysgrifennu at gwsmeriaid cyn i'w morgais aeddfedu, mae cyfraddau ymgysylltu dilynol gyda chwmnïau yn isel.

Dangosodd ein gwaith ein hunain heriau cael cwsmeriaid sydd wedi ymddieithrio i gymryd rhan yn eu penderfyniadau – yn y lle cyntaf roedd hi'n anodd eu cael i drafod y mater hwn. Fodd bynnag, trwy ddyfalbarhau, roeddem yn gallu cael cipolwg pwysig ac wedi cyhoeddi ymchwil defnyddwyr ynghylch pam mae cwsmeriaid yn methu â siarad â'u benthycwyr. Ein nod oedd rhoi gwell dealltwriaeth i fenthycwyr ynghylch pam na allai cwsmeriaid gysylltu â nhw ynghylch ad-dalu diffygion.

Rydym hefyd wedi cynhyrchu taflen ar gyfer defnyddwyr sy'n tynnu sylw at fanteision siarad â'u benthycwyr mor gynnar â phosibl.

Datrysiadau cystadleuaeth bancio adwerthu

Rydym wedi datblygu ein gwaith i hybu cystadleuaeth mewn bancio adwerthu, yn enwedig o ran gwybodaeth am wasanaethau, awgrymiadau i gynnwys cwsmeriaid a mesurau ar orddrafftiau, gan gynnwys rhybuddion negeseuon testun. Dilynodd y gwaith hwn ymchwiliad marchnad adwerthu'r CMA, ond roedd yn ehangach, yn unol â'n hamcanion a'n cylch gwaith ehangach.

Er enghraifft, cyhoeddwyd ein Datganiad Polisi ym mis Rhagfyr 2017. Mae hyn yn nodi ein rheolau terfynol sy'n mynnu bod banciau a chymdeithasau adeiladu gyda mwy na 70,000 o gyfrifon cyfredol personol neu 15,000 o gyfrifon cyfredol busnes yn cyhoeddi gwybodaeth wrthrychol am wasanaethau o fis Awst 2018 ymlaen.

Fe wnaethom hefyd gomisiynu ymchwil i ddefnyddwyr a buom yn gweithio gyda chwmnïau i redeg treialon rheoli ar hap i asesu effaith cwsmeriaid sy'n cofrestru'n awtomatig i dderbyn negeseuon testun ynghylch gorddrafft a rhybuddion hysbysu gwrthio symudol.

Rydym wedi gwneud cynnydd da ymhob maes ac rydym wedi ymgynghori ynghylch nifer o gynigion ym mis Mai 2018.

Bregusrwydd defnyddwyr a'u mynediad at wasanaethau ariannol

Mae defnyddwyr mewn amgylchiadau bregus yn fwy agored i niwed ac, yn gyffredinol, yn llai abl i hybu eu buddiannau eu hunain. Rydym yn blaenoriaethu defnyddwyr nad ydynt yn gallu siopa o gwmpas ar draul y rheini sy'n gallu gwneud hynny ond sy'n dewis peidio. Mae hyn yn adlewyrchu ein hamcan i sicrhau lefel briodol o ddiogelwch i ddefnyddwyr, yn ogystal â'r gofyniad i ystyried gwahanol fathau o brofiad ac arbenigedd defnyddwyr gwahanol. Er enghraifft, eleni, gwnaethom reolau sy'n gofyn i gwmnïau gymryd camau i helpu cwsmeriaid mewn dyled cerdyn credyd parhaus.

Rydym wedi cyhoeddi cyfres o ddogfennau sy'n rhoi mwy o fanylion ar ein dull o gyflawni ein hamcan diogelu defnyddwyr. Mae'r rhain yn cynnwys: Ein Cenhadaeth, ein Hymagwedd i'r Dyfodol at Defnyddwyr a'n Papur Achlysurol ar y Boblogaeth sy'n Heneiddio.

Er mwyn rhoi mwy o sicrwydd i'r holl randdeiliaid, eglurodd ein hymgyngoriad Ymagwedd i'r Dyfodol at Ddefnyddwyr sut rydym yn rheoleiddio ar gyfer defnyddwyr adwerthu. Mae'n nodi barn gychwynnol ar yr hyn sy'n edrych yn dda, ac yn esbonio sut yr ydym yn gweithio i ddiagnosio a datrys niwed i sicrhau ein bod yn gwarchod defnyddwyr. Byddwn yn cyhoeddi Datganiad Adborth ac Ymagwedd Derfynol yn ystod haf 2018.

Monitro newid

Disgrifiodd y Papur Achlysur Poblogaeth sy'n Heneiddio y niwed posibl i ddefnyddwyr hŷn, fel gwaharddiad o ystod o wasanaethau ariannol a chanlyniadau gwael. Mae'r papur yn nodi'r meysydd yr ydym am i gwmnïau eu hystyried i atal niwed posibl. Rhoesom 3 phennawd eang sy'n ymdrin â ffyrdd y gall cwmnïau helpu i ddiwallu anghenion defnyddwyr hŷn. Yn gyntaf, trwy ddylunio cynhyrchion a gwasanaethau sy'n deall ac yn rhagweld anghenion defnyddwyr hŷn. Yn ail, rhoi digon o gefnogaeth i gwsmeriaid a chydabod pryd mae cwsmeriaid yn cael anawsterau. Ac yn drydydd, adolygu ac addasu eu strategaethau yn barhaus i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn briodol i ddefnyddwyr. Byddwn yn adolygu'r cynnydd a wnaed yn yr ardaloedd hyn yn 2020.

Cynyddu ein dealltwriaeth o ddefnyddwyr

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi defnyddio ymchwil i gynyddu'r hyn a wyddom am flaenoriaethau defnyddwyr a nodi lle gall ein gwaith ychwanegu'r gwerth mwyaf. Bydd y wybodaeth yma'n ein helpu i flaenoriaethu ein hymyriadau i ddarparu cymaint o werth cyhoeddus â phosibl.

Financial Lives 2017

Dywedodd Financial Lives 2017 wrthym fod 50% o oedolion y DU (25.6 miliwn) yn dangos un neu ragor o nodweddion sy'n awgrymu eu bod yn fregus. Gallant fod mewn mwy o berygl o niwed, neu gallant ddioddef yn anghymesur os bydd niwed yn digwydd.

Mae sawl grŵp yn fwy tebygol o ddangos y nodweddion hyn. Mae'r rhain yn cynnwys y rhai sydd heb fanc (nid oes ganddynt gyfrif cyfredol amgen neu e-arian) a'r rhai sy'n ddi-waith ac sy'n chwilio am waith. Gan edrych ar y rhai heb fanc (3% o oedolion y DU), mae 77% yn dangos nodweddion bregusrwydd posibl.

Mae cyfran fwy o fenywod na dynion yn dangos nodweddion bregusrwydd (gallai 47% o ddynion fod yn fregus, o'u cymharu â 53% o fenywod). Defnyddiwyd y canfyddiadau hyn i ddatblygu ein Dull Defnyddwyr ac yn ein proses cynllunio busnes a blaenoriaethu.

Prosiect y Boblogaeth sy'n Heneiddio a'r Papur Achlysurol

Adolygodd y Papur Achlysurol a gyhoeddwyd gennym ym mis Medi 2017 oblygiadau polisi cyhoeddus poblogaeth sy'n heneiddio a sut y gallai hyn effeithio ar wasanaethau ariannol. Mae oedran yn aml, er nad bob amser, yn cydberthyn i rai mathau o fregusrwydd.

Wrth adolygu sut caiff pobl hŷn eu trin, canfuom risgiau nad yw eu hanghenion gwasanaethau ariannol yn cael eu diwallu'n llawn, a all arwain at allgau, canlyniadau cwsmeriaid gwael a niwed posibl.

Mae ein papur yn nodi rhai syniadau ar sut gall cwmnïau wella eu modelau busnes. Mae'r rhain yn cynnwys edrych ar ddylunio cynnyrch a gwasanaethau, cymorth cwsmeriaid, ac adolygu ac addasu eu strategaethau busnes. Roedd hefyd yn archwilio amrywiaeth o faterion, gan gynnwys ymgysylltiad defnyddwyr hŷn â bancio adwerthu, mynediad trydydd parti a chynllunio ymlaen llaw, benthycu i bobl yn ddiweddarach mewn bywyd a gofal hirdymor.

Papur Achlysurol ar atal trallod ariannol trwy ragfynegi cytundebau credyd defnyddwyr anfforddiadwy

Roedd y papur hwn yn darparu tystiolaeth ddamcaniaethol ac ymarferol i helpu i ddatblygu rheolau fforddiadwyedd mwy effeithiol. Rydym wedi ei ddefnyddio i hysbysu sut rydym yn datblygu rheolau ar gyfer diwydiant sy'n anelu at leihau'r risg o niwed i ddefnyddwyr.

Mewn adolygiad o'r asiantaethau cyfeirio credyd, gwelsom wahaniaethau sylweddol yng nghyfanswm gwerth y dyledion sy'n ddyledus a gofnodwyd gan 2 asiantaeth ar gyfer yr un bobl ar yr un pryd. Mae hyn yn awgrymu nad yw'r data mae benthycwyr yn ei ddefnyddio i ragweld trallod ariannol yn amcangyfrif incwm a gwariant ar gyfer rhai ymgeiswyr yn gyson. Mae'r anghysondeb hwn yn cyfyngu ar allu benthycwyr i ragfynegi trallod ariannol.

Lleihau dyled barhaus

Canfu ein Hastudiaeth Marchnad Cardiau Credyd er bod y farchnad yn gweithio'n dda ar gyfer y rhan fwyaf o ddefnyddwyr, mae'r rheini mewn dyled barhaus yn talu tua £2.50 ar gyfartaledd mewn llog a thaliadau am bob £1 y byddant yn ad-dalu o'u benthyciad.

Felly eleni, gwnaethom reolau sy'n mynnu bod cwmnïau'n cymryd cyfres o gamau i helpu cwsmeriaid sy'n gwneud ad-daliadau isel dros gyfnod hir. Mae'r rhain yn dechrau pan fu'r cwsmer mewn dyled barhaus am dros 18 mis.

Unwaith y bydd defnyddiwr wedi bod mewn dyled barhaus am 36 mis, mae'n rhaid i'w darparwr gynnig ffordd iddynt ad-dalu eu cydbwysedd mewn cyfnod rhesymol. Os na all y defnyddiwr ad-dalu, yna mae'n rhaid i'r cwmni ddangos y ffaith bod y cwsmer yn llwyddo. Gall hyn gynnwys lleihau, rhoi'r gorau neu ddiddymu llog, ffioedd neu daliadau.

Gwella sut mae cwmnïau rheoli dyled yn helpu cwsmeriaid i reoli dyled

Mae arfer gwael gan gwmnïau rheoli dyledion yn peri risg uchel i ddefnyddwyr, yn enwedig y rheini mewn amgylchiadau bregus, felly mae rheoli dyled yn parhau i fod yn un o'n blaenoriaethau.

Ers 2014, rydym wedi bod yn glir gyda chwmnïau rheoli dyled y mae angen iddynt weithredu'n gyfrifol, ac er lles defnyddwyr. Ers hynny, rydym wedi gwrthod caniatâd i nifer o ddarparwyr; mae eraill wedi gadael y farchnad. Mae'n rhaid i'r rhai sydd wedi aros ddangos eu bod yn bodloni ein hamodau trothwy i'w hawdurdodi.

Eleni, gwnaethom adolygu sampl o ddarparwyr rheoli dyledion sy'n codi ffioedd a rhad ac am ddim i gwsmeriaid i'n helpu i lunio darlun llawn o'r sector. Rydym am ddeall pa arfer da yw helpu defnyddwyr i ddelio â'u dyledion, yn ogystal â nodi meysydd lle mae angen i gwmnïau wella. Ein nod yw cwblhau'r adolygiad hwn yn Q1 2019.

Lle bo materion yn parhau, byddwn yn cymryd camau gorfodi. Er enghraifft, ym mis Hydref 2017, gwaharddom 2 gyn-gyfarwyddwr cwmni rheoli dyledion er mwyn camymddwyn arian cleientiaid yn fwriadol.

Rydym hefyd wedi ymgymryd â gwaith ar gredyd cost uchel. Yma rydym wedi nodi pryderon penodol ar gyfer sectorau credyd rhent-i-berchen, credyd a gesglir gartref a chredyd catalog. Rydyn ni'n rhoi rhagor o wybodaeth am hyn yn yr adran ar fenthyca adwerthu.

4 Ein blaenoriaethau sector

Marchnadoedd ariannol cyfanwerthu

Mae marchnadoedd ariannol cyfanwerthu yn galluogi cwmnïau a llywodraethau i gael mynediad at gyllid a darparu cyfleoedd buddsoddi ar gyfer buddsoddwyr sefydliadau ac adwerthu. Mae marchnadoedd ariannol cyfanwerthu y DU yn hanfodol i ffyniant a thwf economaidd y DU. Maent yn cyflawni ystod eang o anghenion ariannol ar gyfer corfforaethau, llywodraethau a sefydliadau ariannol. Mae'r rhain yn cynnwys gwneud a derbyn taliadau, buddsoddi ariannu, arloesi a thwf, gweithrediadau ariannu a rheoli arian parod, hwyluso masnach ddomestig a rhyngwladol, gan ddarparu cyfleoedd i fuddsoddi a rheoli risgiau ariannol a risgiau eraill. Mae effeithiolrwydd y marchnadoedd hyn yn dibynnu ar eu bod yn deg yn weledol, yn gystadleuol, yn dryloyw ac yn wydn. Dangosodd ein gwaith eleni i fynd i'r afael â'r hyn sy'n sbarduno niwed sut yr ydym yn gweithredu'n unol â'n hamcan strategol i sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio'n dda.

Roedd ein gwaith yn canolbwyntio ar 4 prif ffactor o niwed mawr mewn marchnadoedd cyfanwerthu. Y gyrrwr allweddol cyntaf yw camymddwyn difrifol fel trosedd ariannol neu gamddefnyddio'r farchnad. Yr ail yw, cyfranogwyr nad ydynt yn delio â'i gilydd yn briodol, oherwydd gwrthdaro rhwng buddiannau, llywodraethu gwael neu systemau a rheolaethau annigonol. Y trydydd yw, gwydnwch gweithredol gwael sy'n arwain at fethiannau anhrefnus, ymosodiadau seiber llwyddiannus neu amhariad ar y farchnad, er enghraifft, a all niweidio cyfranogwyr yn y farchnad a'r economi ehangach. Yn olaf, pan fyddwn yn nodi marchnadoedd a allai fod yn gweithio'n well, efallai y byddwn yn ymyrryd i wella eu heffeithlonrwydd a'u heffeithiolrwydd er mwyn sicrhau eu bod yn gwasanaethu defnyddwyr yn well. Mae'r enghreifftiau isod yn dangos sut mae gwaith yn y sector hwn yn datblygu ein hamcanion i hybu cystadleuaeth ac i ddiogelu uniondeb y marchnadoedd ariannol.

Dangosyddion canlyniadau

Gall camddefnyddio'r farchnad achosi niwed trwy, er enghraifft, ymelwa'n annheg ar anghymesuredd gwybodaeth a rhoi cyfranogwyr sy'n dilyn y gyfraith yn y farchnad dan anfantais. Gall hyn arwain at golli hyder yn uniondeb y farchnad a lleihau cyfranogiad yn y farchnad.


Cyflwynwyd Rheoliad Camddefnyddio'r Farchnad (MAR) yn 2016. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyfranogwyr yn y farchnad adrodd ar archebion a thrafodion a allai gyfyngu ar fasnachu mewnol, ystumio'r farchnad, ymgais ar fasnachu mewnol neu ymgais ar ystumio'r farchnad.

Ymrwymadau goruchwylio camddefnyddio'r farchnad MAR ehangach ar gwmnïau. Mae'r gyfundrefn newydd yn cynyddu'r nifer o ymddygiadau amheus y mae angen rhoi gwybod i ni amdanynt, sef un o'r rhesymau y mae nifer yr adroddiadau a gyflwynwyd i'r FCA wedi cynyddu. Roedd yr ehangu hwn yn cynnwys adrodd am archebion a thrafodion amheus, ychwanegu ymgais ar gamddefnyddioa chynyddu'r offerynnau,

cwmnïau a lleoliadau masnachu sydd yn y gyfundrefn. Ymhellach, mae'n drefn newydd yn golygu ei bod yn rhaid cyflwyno Adroddiad Trafodion ac Archebion Amheus (STOR) newydd ar gyfer pob cyfranogwr unigol. Am y rheswm hwn, nid oes modd cymharu data eleni â data blynyddoedd blaenorol. Yn 2017, cawsom 4,829 o adroddiadau am fasnachu mewnol a 666 o adroddiadau am ystumio'r farchnad. Bydd hon yn waelodlin ar gyfer adrodd yn y dyfodol.

Bob blwyddyn rydym yn cyhoeddi ystadegyn Glendid y Farchnad ar gyfer marchnadoedd ecwiti y DU. Diffinnir hyn fel y gyfran o ddigwyddiadau cymryd busnes corfforaethol drosodd lle'r oeddem wedi sylwi ar symudiad anarferol ym mhris y cyfranddaliadau cyn y cyhoeddiad trosglwyddo. Rydym yn cydnabod nad yw hyn yn ddangosydd perffaith o lendid y farchnad, ond mae'n 1 dangosydd o fasnachu mewnol posibl.

Ffigur 4.1: Glendid Marchnad Blynyddol a nifer y digwyddiadau bob blwyddyn



Ystadegyn Glendid y Farchnad 2017 oedd 22%. Mae hyn yn golygu bod 22% o achosion o gymryd busnes drosodd yn y DU yn gysylltiedig â symudiadau pris anarferol cyn y cyhoeddiad am gymryd y busnes drosodd. Roedd y ganran hon wedi disgyn rhwng 2009 a 2014 ond mae wedi codi eto ers 2014. Ers 2008 bu tueddiad cyffredinol am i lawr yn nifer y digwyddiadau cymryd busnes drosodd yn y sampl ac mae hyn wedi cyrraedd lefel wastad ar ôl 2013.

Mae gan yr ystadegyn nifer o ddiffygion fel mesur o lendid y farchnad. Yn gyntaf, o ran cwmphas, mae'n delio â'r farchnad ecwiti yn unig, ac mae'n edrych ar fasnachu mewnol yn unig. Yn ail, mewn perthynas â chywirdeb y mesur, mae ei anwadalrwydd wedi cynyddu oherwydd gostyngiad ym maint y sampl; gan fod gwahaniaeth 1 neu 2 ddigwyddiad cadarnhaol mewn sampl llai yn gwneud gwahaniaeth mwy i'r prif fesur. Er mwyn delio â hyn, bwriadwn ddatblygu dangosyddion ychwanegol i werthuso glendid y farchnad ar gyfer y dyfodol.

Y Gyfarwydddeb Marchnadoedd mewn Offerynnau Ariannol (MiFID II)

Daeth y Gyfarwydddeb Marchnadoedd Offerynnau Ariannol ddiwygiedig (MiFID II) i rym ar 3 Ionawr 2018. Mae'r gyfarwydddeb yn canolbwyntio ar ffactorau allweddol sy'n sbarduno niwed, megis diffyg tryloywder, gwydnwch gweithredol annigonol a sefydlogrwydd, datgeliadau anghyson o strwythurau ffioedd a chodi tâl, gwrthdaro rhwng buddiannau, anghysondeb mewn gwybodaeth a chymhlethdod y cynnyrch.

Roedd hwn yn derfyn amser heriol, a gwnaethom gwblhau ein rheolau ganol 2017 er mwyn sicrhau bod cwmnïau'n gallu cwrdd â hi. Fe wnaethom ymgysylltu â chwmnïau a lleoliadau masnachu i helpu i sicrhau parodrwydd y farchnad ar gyfer 'diwrnod un'. Roedd ein gwaith yn cynnwys gweithio gyda chwmnïau a lleoliadau ar yr awdurdodi a chaniatadau angenrheidiol i weithredu dan y drefn newydd, cyflwyno ein system Prosesydd Data Marchnad (MDP) newydd, ac allgymorth i esbonio polisiau a gofynion y system. At ei gilydd, roedd y gweithredu'n llyfn ac roedd marchnadoedd wedi aros mewn trefn trwy gydol y broses. Rydym yn parhau i weithio gyda'r diwydiant gan fod y gyfundrefn newydd wedi'i sefydlu i sicrhau bod cwmnïau yn cynnal y momentwm cadarnhaol hwn tra bod y farchnad yn addasu i'r newidiadau.

Mae penderfyniad y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd (UE) wedi cael effaith sylweddol ar y ffordd yr ydym yn gweithio, ac mae'n parhau i gael effaith. Mae cyfran sylweddol o'n hadnoddau eisoes yn canolbwyntio ar y gadael, gan gynnwys trefniadau i weithredu'r newid. Ym mis Rhagfyr 2017, cyhoeddodd Comisiwn yr UE gynnis deddfwriaethol ar gyfer cyfundrefn ddarbodus newydd ar gyfer cwmnïau buddsoddi a awdurdodwyd dan MiFID. Mae'n cynnis cyfundrefn ddarbodus fwy addas ac wedi'i theilwra ar gyfer y cwmnïau hyn i leihau a rheoli niwed posibl o'r ffordd maent yn cyflawni eu gweithgareddau. Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn darparu cymorth technegol i'r Trysorlys yn ystod y trafodaethau ar gyfer y testun arfaethedig.

Ers 3 Ionawr, mae ein gwaith wedi cynnwys datblygu safbwynt ar weithrediad cyffredinol cwmnïau o ofynion MiFID II. Mae hyn yn rhan o'n rôl wrth geisio gwella gweithrediad eang y marchnadoedd ariannol i ychwanegu gwerth cyhoeddus a gwella canlyniadau i ddefnyddwyr ac yn y marchnadoedd hynny. Ar ôl gweithredu, mae ein gweithgarwch goruchwyllo wedi canolbwyntio'n fwyfwy ar sicrhau bod cwmnïau'n cydymffurfio â'r gofynion newydd ac yn asesu a yw'r rheolau yn gweithio fel y bwriadwyd. Rydym wedi ymrwymo yn ein Cynllun Busnes ar gyfer 2018/19 i barhau â'r gwaith hwn ar draws nifer o feysydd blaenoriaeth.

Fel yn ein holl waith goruchwyllo, lle rydym yn darganfod posibilrwydd o gamymddwyn difrifol, a allai gynnwys methiant llwyr i gydymffurfio â deddfwriaeth newydd, rydym yn ystyried pa fesurau a all fod yn briodol i fynd i'r afael â hyn. Rydyn ni'n rhoi mwy o fanylion ar sut yr ydym yn trin camymddwyn yn ein Hymagwedd at Orfodaeth.

Meincnodau

O 1 Ionawr 2018, estynnodd Rheoliad Meincnod yr UE ein rheoliad i gwmpasu llawer mwy o feincnodau a'u gweinyddwyr, eu cyfranwyr a'u defnyddwyr. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y meincnodau yn gadarn ac yn ddibynadwy, ac yn lleihau gwrthdaro rhwng buddiannau mewn prosesau gosod meincnod, gan wella uniondeb y farchnad. Dros eleni, rydym hefyd wedi dechrau gwaith mawr i sicrhau bod pontio llyfn a llwyddiannus o LIBOR i feincnodau sy'n seiliedig ar fwy o drafodion marchnad. Bydd y gwaith hwn yn lleihau'r ddibyniaeth ar LIBOR a'r risg o niwed o rwystro'r gyfradd LIBOR mewn ffordd anhrefnus.

Rheoliad Camddefnyddio'r Farchnad (MAR)

Rydym wedi gweithio ar draws y sefydliad i hybu ein hamcan uniondeb y farchnad trwy fynd i'r afael â'r bygythiad sy'n datblygu'n gyson o gamddefnyddio'r farchnad. Er enghraifft, rydym wedi gweithio o fewn y prif farchnadoedd a'r marchnadoedd eilaidd i fynd i'r afael â'r bygythiad a achosir gan y gwahanol ddosbarthiadau asedau.

Rydym yn gweithio ar nifer o ffrydiau gwaith goruchwylol i asesu a oes gan gwmnïau systemau a rheolaethau priodol i fynd i'r afael â'r risg o gamddefnyddio'r farchnad. Mae hyn yn cynnwys rheoli gwybodaeth ac atal, canfod ac adrodd am gamddefnyddio'r farchnad. Yn ymwybodol o beryglon ymagwedd blwch ticio wrth fynd i'r afael â chamddefnyddio'r farchnad, rydym wedi pwysleisio ei bod yn bwysig bod gan gwmnïau'r meddylfryd cywir. Rydym wedi cynyddu lefel ein hymgysylltiad allanol â grwpiau cyhoeddwr i sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth glir o ddefnyddio MAR a'u bod yn datgelu ac yn trin gwybodaeth fewnol yn briodol. Mae ein ffocws cynyddol ar yr ardal hon hefyd wedi cynhyrchu nifer o ymyriadau gorfodi mewn perthynas â chyhoeddwyr a'u rhwymedigaethau datgelu.

Yn ddiweddar, lansiwyd ymgynghoriad ynghylch arweiniad gennym sy'n bwriadu ychwanegu pennod i'n Canllaw Trosedd Ariannol ar fasnachu mewnol ac ystumio'r farchnad. Byddwn yn cyhoeddi'r canlyniadau yn nes ymlaen yn 2018.

Un agwedd allweddol o'r gwaith hwn yw sicrhau bod 'porthorion' i'r farchnad yn cymryd cyfrifoldeb am eu rôl wrth adrodd am amheuaeth o gamddefnyddio'r farchnad a'i atal rhag digwydd ym marchnadoedd y DU.

Er enghraifft, fel rhan o'r broses gymeradwyo ar gyfer Cyfleusterau Masnachu Trefnedig o dan MIFID II, gwnaethom ymweliadau targed â chwmnïau allweddol. Gwnaethom wirio eu trefniadau goruchwyllo'r farchnad i sicrhau eu bod yn bodloni eu rhwymedigaethau lleoliad masnachu. Lle'r oeddem yn canfod bod angen i'r trefniadau hyn fod yn gryfach, roeddem yn gofyn i'r cwmnïau hyn ymgymryd â gwaith adfer i ddatrys materion a diogelu uniondeb y marchnadoedd.

Roedd cyflwyno MIFID II yn darparu set newydd a manylach o adroddiadau trafodion sydd wedi cryfhau ein gallu i adnabod ymddygiad gwael. Mae hyn yn gysylltiedig â'r cynnydd mewn trafodion amheus a chyflwyno adroddiadau gan y diwydiant ei hun. Ar yr un pryd, rydym hefyd yn gwneud penderfyniadau i ymchwilio i gamddefnyddio'r farchnad yn gynharach, sy'n golygu ein bod yn defnyddio ein pwerau ymchwiliol yn fwy effeithiol.

Fe wnaethom ni agor 87 o achosion camddefnyddio'r farchnad yn 2017 o'i gymharu â 120 yn 2016. Rydym yn canolbwyntio'n fwyfwy ar ddisgyblaeth datgeliadau'r brif farchnad. Dangosir hyn gan 4 o'n canlyniadau gorfodi yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf a amlinellir isod.

Gwella ymddygiad ar draws y diwydiant

Ym mis Tachwedd 2017, cyhoeddwyd Papur Ymgynghori gyda chynigion i gydnabod rhai codau ymddygiad diwydiant ar gyfer marchnadoedd heb eu rheoleiddio. Ein nod yma yw annog y diwydiant i ddatblygu a mabwysiadu codau sy'n helpu cwmnïau i gyflawni safonau ymddygiad cryf, hyd yn oed os nad ydynt yn cael eu rheoleiddio gennym.

Ym Mehefin 2017, cyhoeddassom Ddatganiad Polisi, gan ymateb i adborth ar y rheolau arfaethedig yr ymgynghorwyd yn eu cylch yn dilyn ein hastudiaeth yn y farchnad buddsoddi a bancio corfforaethol. Dadansoddodd yr astudiaeth hon o'r farchnad ystod eang o faterion yn ymwneud â'r brif farchnad ac effeithiau traws-werthu a chroes-gymhorthdal. Canfuom fod cymalau contract yn gallu rhwystro cystadleuaeth gan eu bod yn cyfyngu ar ddewis cleient pan fyddant yn ymgymryd â thrafodion yn y dyfodol. O ganlyniad, cynigiom y dylid gwahardd y cymalau cytundebol cyfyngol hyn.⁷

Gwneud y prif farchnadoedd yn fwy effeithiol

Gall prif farchnadoedd sy'n gweithredu'n wael arwain at ddyraniad cyfalaf aneffeithlon. Mae ansawdd a phrydlondeb y wybodaeth a ddarperir i ddarpar fuddsoddwyr a rheolau rhestru sy'n annog cyhoeddwyr i fodloni safonau uchel o ran tryloywder a llywodraethu yn rhannau allweddol o sicrhau bod y marchnadoedd hyn yn gweithio'n dda.

Ym mis Hydref 2017, cyhoeddassom 2 ddatganiad polisi i fynd i'r afael â'r problemau hyn. Cyflwynodd un newidiadau i wella ystod, amseroldeb ac ansawdd y wybodaeth y mae cwmnïau'n ei rhoi i fuddsoddwyr yn ystod y broses Cynigion Cyntaf i'r Cyhoedd (IPO). Mae'r agweddau eglurhaol eraill o'r Gyfundrefn Rhestrau, gan gynnwys esbonio'r meini prawf cymhwyster ar gyfer cwmnïau premiwm a restrir yn fwy clir a diwygio ein hymagwedd tuag at fanteision cymryd cwmnïau drosodd am yn ôl.

Fe wnaethom hefyd gyhoeddi Papur Ymgynghori ym mis Gorffennaf 2017 i gyflwyno cynnig wedi'i dargedu i ddiwygio'r categorïau o restru premiwm. Cynigiwyd cynnwys categori rhestru newydd o fewn y segment premiwm a fydd ar gael i gwmnïau masnachol sy'n cael eu rheoli gan gyfranddaliwr sy'n wlad sofran. Daeth yr ymgynghoriad i ben ym mis Hydref 2017 a chawsom 36 o ymatebion ffurfiol. Gwrandawom ar gyfranogwyr yn yr ymgynghoriad a diwygiwyd elfennau o'r cynigion yng ngoleuni'r adborth hwnnw. Cyhoeddwyd y rheolau terfynol ym mis Mehefin a daethant i rym ar 1 Gorffennaf 2018.

⁷ Datganiad Polisi 17/13 'Buddsoddi a bancio corfforaethol: gwahardd cymalau cytundebol cyfyngol,' www.fca.org.uk/publications/policy-statements/ps17-13-investment-and-corporate-banking-prohibition-restrictive

Rheoli buddsoddiadau

Mae'r sector hwn yn gyfrannwr allweddol i economi'r DU. Mae'n bwysig ein bod yn annog sector cystadleuol sy'n gweithio'n dda ar gyfer y miliynau o bobl sy'n dibynnu arno am eu buddsoddiadau hirdymor, gan gynnwys pensiynau. Mae gan effaith gronol newidiadau rheoliadol y potensial i gael effaith eang a chadarnhaol ar y sector, gan sbarduno mwy o gystadleuaeth, a mwy o ffocws ar werth i fuddsoddwyr.

Mae'r prif ffactorau niwed yn y sector hwn yn cynnwys llywodraethu gwael, gwrthdaro rhwng buddiannau a reolir yn wael, ansawdd gwael a gwerth cynhyrchion, a diffyg datgelu a thryloywder am gostau. Gallai'r materion hyn olygu bod buddsoddwyr yn talu gormod am gynhyrchion a gwasanaethau, neu brynu cynhyrchion nad ydynt yn cyflawni neu'n ymddwyn fel y nodwyd. Gall troseddau seiber a thechnoleg sy'n amharu hefyd niweidio uniondeb y farchnad trwy ymyrryd ar ddarpariaeth gwasanaethau, a chynyddu'r risg o wyngalchu arian. Mae'r enghreifftiau isod yn dangos sut mae ein gwaith eleni wedi datblygu ein hamcan cystadleuaeth a diogelu cwsmeriaid.

Dangosyddion canlyniadau

Yn unol â'n hamcan cystadleuaeth, nododd ein Hastudiaeth i'r Farchnad Rheoli Asedau (AMMS) niwed pwysig yn y sector hwn, ac mae rhai ohonynt yn cynnwys ansawdd a gwerth y cynhyrchion a ddarperir. At ei gilydd, rydym yn amcangyfrif bod dros 75% o gartrefi'r DU yn agored i'r sector rheoli asedau, naill ai'n uniongyrchol neu drwy eu pensiynau.⁸ Gwnaethom reolau terfynol ar ran o'n set gyntaf o ddatrysiadau ym mis Ebrill 2018.

Mae'r dangosyddion isod yn debyg yn fras i'r mesurau a ddefnyddir yn y AMMS, ond maent yn defnyddio methodolegau a data gwahanol i sicrhau y gellir ailadrodd dangosyddion yn rheolaidd yn y dyfodol. O ganlyniad, ni allwn gymharu'r dangosyddion isod â data AMMS. Ond byddwn yn defnyddio tueddiadau yn y dangosyddion isod yn Adroddiadau Blynnyddol yn y dyfodol i asesu a all niwed allweddol fod yn cynyddu neu'n gostwng yn y blynnyddoedd i ddod.

Clystyru prisiau

Mae 'clystyru prisiau' yn adlewyrchu gwahaniaethau mewn lefelau prisio ar gyfer gwasanaethu Asedau dan Reolaeth (AUM). Ar ei ben ei hun, nid yw clystyrau penodol o brisiau yn dangos bod defnyddwyr yn dioddef niwed penodol. Fodd bynnag, mae ein dadansoddiad AMMS yn awgrymu bod patrwm clystyru prisiau yn dangos cystadleuaeth wan ar gyfer cynhyrchion a reolir yn weithredol, ynghyd â thystiolaeth arall. Mae hyn yn debygol o yrru canlyniadau is-optimaidd i ddefnyddwyr, ee prisiau nad ydynt yn adlewyrchu gwerth ychwanegol y gwasanaethau a ddarperir. Dangosodd ein data ar gyfer 2016 3 prif glastyrau yn ôl AUM yn: 1.6 i 1.7%, 0.8 i 0.9% a llai na 0.1%.

Cryfhau cystadleuaeth pris mewn rheoli asedau

Cyhoeddwyd ein papur ymgynghorol (CP18/12) ym mis Mai 2018, gyda phecyn o gynigion i leihau costau i ddefnyddwyr, gwella arferion gwerthu, diogelu ddefnyddwyr mewn perygl o anhawster ariannol, sicrhau bod benthyciadau ailadroddus yn cael eu harwain gan ddefnyddwyr ac annog arloesedd yn y farchnad i wneud dewisiadau amgen ar gael yn ehangach. Fe wnaethom hefyd esbonio bod achos, mewn egwyddor, ar gyfer ystyried cyflwyno cap pris [yn y farchnad hon] ar gynhyrchion rhent-i-brynu. Rydyn ni nawr yn casglu ac yn dadansoddi tystiolaeth sydd ei hangen i ddod i gasgliad terfynol ar y cwestiwn hwn. Ym mis Mai, buom yn trafod diwygiad sylfaenol i strwythur prisiau gorddrafftiau a rheolau newydd arfaethedig i helpu ddefnyddwyr i ymgysylltu â hwy a'u deall yn well (CP18/13).

Dewisiadau eraill i gredyd cost uchel

Rhan hanfodol o'n pecyn cyffredinol yw'r gwaith yr ydym yn ei wneud i feithrin twf dewisiadau amgen i gredyd cost uchel. Byddai mwy o argaeledd ac ymwybyddiaeth o'r dewisiadau amgen hyn yn lleihau nifer y bobl sy'n troi at wasanaethau credyd cost uchel. Byddai hefyd yn darparu opsiynau i ddefnyddwyr na all mwyach gael mynediad at wasanaethau credyd cost uchel ar ôl unrhyw ymyriadau posibl a wnawn. Byddai mwy o argaeledd dewisiadau amgen felly'n helpu defnyddwyr i gael gwell canlyniad.

Rydym yn gweithio gyda nifer o asiantaethau cyhoeddus i ddatblygu ymagweddau mwy effeithiol at y problemau hyn. Mewn rhai achosion gallwn hefyd weithredu'n uniongyrchol, er enghraifft trwy annog atgyfeiriadau i ffynonellau credyd eraill. Rydym wedi ymgynghori ar ganllawiau, yn CP 18/12, i roi hyder i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ynghylch sut i gyfeirio eu tenantiaid at ddewisiadau eraill fel undebau credyd a Sefydliadau Cyllid Datblygu Cymunedol.

Eleni, fe wnaethom hefyd adolygu sampl o ddarparwyr rheoli dyledion sy'n codi ffi a rheoli dyledion i gwsmeriaid di-dâl. Rydym wedi rhoi rhagor o wybodaeth am hyn yn y bennod Bregusrwydd defnyddwyr a mynediad at wasanaethau ariannol.

Mynd i'r afael â risgiau gan gymhellion staff mewn cwmnïau credyd defnyddwyr

Gall y modd y mae staff yn cael eu cymell, eu gwobrwyo a'u monitro ddylanwadu ar y peryglon eu bod yn camwerthu. Fe wnaethom gyhoeddi canllawiau terfynol a chyflwynwyd rheolau newydd ar gymhellion staff, cydnabyddiaeth a rheoli perfformiad mewn cwmnïau credyd defnyddwyr. Bydd y gofynion hyn yn dod i rym ar 1 Hydref 2018. Fe wnaethom ymgynghori hefyd ar ganllawiau a rheolau newydd yn dilyn ein hadolygiad thematig o gwmnïau credyd defnyddwyr a oedd yn canfod arferion risg uchel ac yn debygol o annog gwerthiannau neu gasgliadau pwysedd uchel. Dyluniwyd ein hymagwedd i helpu cwmnïau credyd defnyddwyr i nodi'r risgiau hyn, ac i esbonio iddynt ein disgwyliadau ynghylch sut y dylent eu rheoli.

Asesu addasrwydd am gredyd mewn credyd defnyddwyr

Mae'n bwysig bod cwmnïau yn cynnal asesiadau priodol o fforddiadwyedd (i'r benthyciwr) ac nid y risg credyd yn unig na fydd y defnyddiwr yn gallu ad-dalu. Gall methu â gwneud hynny arwain at niwed i ddefnyddwyr.

Ym mis Gorffennaf 2017, cyhoeddassom Bapur Ymgynghori ar newidiadau arfaethedig i'n rheolau a'n canllawiau ar asesu addasrwydd am gredyd, gan gynnwys fforddiadwyedd, i egluro ein disgwyliadau gan gwmnïau. Disgwyliwn gyhoeddi Datganiad Polisi yn ystod yr haf.

Sicrhau bod cwmnïau'n cyfrifo diffygion talu'n gywir

Rydym wedi cyhoeddi canllawiau terfynol ar gyfer cwmnïau fel eu bod yn deall sut i unioni sefyllfaoedd lle gellid bod wedi codi gormod ar ddefnyddwyr trwy gyfalafu'n awtomatig ar ddiffygion talu ar eu morgais. Gwrandawom ar yr adborth a gawsom gan randdeiliaid o'n hymgyngghoriad 2016/17. Dylai ein disgwyliadau o gwmnïau a'r cynhyrchion perthnasol lle'r ydym yn disgwyl i'r canllawiau fod yn berthnasol nawr fod yn glir.

Sicrhau iawndal i ddefnyddwyr

Fel rhan o'n hymagwedd at reoleiddio, byddwn yn gweithredu i helpu i sicrhau bod cwmnïau yn talu iawndal i'r cwsmeriaid yr effeithir arnynt os ydynt wedi methu â chyrraedd ein safonau. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi helpu i sicrhau bron i £200 miliwn o iawndal i gwsmeriaid cwmnïau credyd defnyddwyr. Roedd y rhain yn cynnwys cwmnïau a oedd wedi methu â gwneud asesiadau digonol o ran credyd, ac wedi methu â datgelu pris llawn cynhyrchion atodol.

Gwella sut caiff cwynion eu trin mewn cwmnïau credyd defnyddwyr

Rydym wedi ysgrifennu at gwmnïau credyd defnyddwyr yn nodi materion wrth ymdrin â chwynion. Mae'r problemau hyn yn cynnwys peidio â darparu'r wybodaeth ofynnol am yr hawl i gysylltu â Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol, peidio â darparu ymatebion terfynol boddhaol i gwynion, a pheidio â chynnal ymchwiliad digonol i achosion gwreiddiol cwynion. Dylai ein llythyr atgoffa pob cwmni o'n disgwyliadau ynghylch cwynion, gan gynnwys yr angen i gynnal adolygiadau o'u polisïau a'u gweithdrefnau cwynion.

Asesu cyllid modur

Eleni, cyhoeddwyd y wybodaeth ddiweddaraf am ein gwaith ar gyllid modur er mwyn esbonio ein canfyddiadau hyd yn hyn. Canfuom fod y rhan fwyaf o'r twf mewn cyllid modur wedi bod i ddefnyddwyr sydd â sgoriau credyd gwell, a bod ôl-ddyledion a chyfraddau diffygdlu yn isel ar y cyfan.

Ymddengys fod y benthyccwyr a adolygwyd gennym yn rheoli'r risg i'w busnes yn ddigonol o ostyngiad posibl mewn prisiau ceir. Fodd bynnag, rydym wedi canfod rhai meysydd sy'n peri pryder, megis ôl-ddyledion cynyddol a chyfraddau diffygdlu ar gyfer cwsmeriaid gyda'r sgoriau credyd isaf a rhai arferion gwael yn y ffordd y mae cwmnïau'n darparu gwybodaeth i gwsmeriaid. Gwelsom hefyd y gallai rhai strwythurau comisiynu arwain at gostau uwch ar gyfer cyllid modur oni bai eu bod yn cael eu rheoli'n iawn gan fenthycwyr a broceriaid. Felly, rydym yn canolbwyntio ar y meysydd hyn ar gyfer gweddill yr adolygiad, sydd i fod i gael ei gyhoeddi erbyn diwedd 2018.

Diogelwch ac yswiriant cyffredinol

Mae cynhyrchion diogelwch ac yswiriant cyffredinol yn caniatáu i unigolion a busnesau ddiogelu eu hunain yn erbyn ansicrwydd, gan alluogi ystod eang o weithgarwch economaidd a allai fel arall gael ei ystyried yn rhy beryglus. Mae ganddo rôl ganolog mewn diwydiannau megis adeiladu, amaethyddiaeth, gweithgynhyrchu, gwasanaethau hamdden a phroffesiynol. Felly mae'n hanfodol bod y farchnad hon, gan gynnwys y farchnad gyfanwerthu sy'n sail iddi, yn gweithio'n dda ac yn parhau i addasu i ddiwallu anghenion newydd ac amgylchiadau sy'n newid.

Yn unol â'n hamcanion i ddiogelu defnyddwyr ac uniondeb marchnadoedd ariannol, ein blaenoriaethau yn y sector hwn yw tegwch, mynediad a gwerth ar gyfer cwsmeriaid adwerthu, a marchnad gyfanwerthu sy'n gweithredu'n effeithiol. O fewn y sector hwn, mae'r ffactorau allweddol sy'n sbarduno niwed yn cynnwys addasrwydd cynhyrchion, prisiau adnewyddu, cam-werthu (gan gynnwys trwy alwadau sy'n mynd allan), cynhyrchion gwerth isel, gwytnwch gweithredol a throseddau seiber.

Dangosyddion canlyniadau

Offer cymharu digidol a chystadleuaeth

Gall Offer Cymharu Digidol (DCTs) gan gynnwys gwefannau cymharu prisiau greu manteision sylweddol – gallant ostwng costau chwilio, newid a thrafod, cynyddu ymgysylltiad defnyddwyr a lleihau costau caffael cyflenwyr.

Gallai diffyg ymddiriedaeth mewn DCTs leihau iechyd y gystadleuaeth os yw'n golygu bod defnyddwyr yn llai parod i ddefnyddio'r holl DCTau sydd ar gael iddynt. Gallai hyn wneud defnyddwyr yn fwy tebygol o brynu cynhyrchion nad ydynt yn diwallu eu hanghenion, neu dalu mwy am gynhyrchion nad ydynt mo'u hangen.

Mae nifer o yrwyr niwed yn berthnasol ond, fel y nodwyd gan y CMA, mae ymddiriedaeth mewn DCTs yn un ffactor allweddol.¹³ Yn Financial Lives 2017, dywedodd 45% o oedolion y DU gydag un neu fwy o gynhyrchion diogelwch neu yswiriant cyffredinol eu bod yn ymddiried mewn gwefannau cymharu prisiau er mwyn cael y fargen orau iddynt tra bod 20% yn anghytuno. Byddwn yn defnyddio arolygon yn y dyfodol i fonitro'r ffigur hwn ac i olrhain tueddiadau sy'n dod i'r amlwg.

Trin hawlwr

Rydym wedi gweld bod trin hawlwr yn wael yn niwed pwysig yn y sector hwn. Enghraifft o hyn yw pan fydd yn rhaid i hawllydd aros am amser hir i'w hawliad gael ei brosesu, neu mae cwmnïau'n gwneud penderfyniadau amhriodol. Rydym wedi gwneud gwaith thematig blaenorol yn y maes hwn ac mae ein gweithgarwch rheoleiddio parhaus yn parhau i dynnu sylw at brofiad hawliadau. Gall nifer o fetrigau fod yn berthnasol i'r niwed hwn. Er enghraifft, gall patrymau yn nifer y cwynion sy'n cael eu cadarnhau gan Wasanaeth yr Ombwdsman Ariannol adlewyrchu a yw trin hawlwr yn wael yn cynyddu neu'n gostwng.

13 Gellir dod o hyd i'r Astudiaeth Marchnad CMA ar DCTs yma:
<https://assets.publishing.service.gov.uk/media/59c93546e5274a77468120d6/digital-comparison-tools-market-study-final-report.pdf>

Byddwn yn monitro newidiadau yn nifer y cwynion a gadarnhawyd gan yr Ombwdsman dros amser fel dangosydd o niwed. Gan nad yw pob defnyddiwr yn cwyno pan gaiff ei drin yn wael, mae'n bwysig edrych ar dueddiadau mewn cwynion a gadarnheir dros amser yn hytrach na rhifau absoliwt. Mae angen inni hefyd weld yr wybodaeth hon yng nghyd-destun data arall, a deall y rhesymau pam nad yw defnyddwyr yn cwyno, yn ogystal â thueddiadau yn nifer y cwynion a gyfeiriwyd.

Nododd Financial Lives 2017 nad oedd 52% o oedolion y DU a ddywedodd eu bod wedi cael problem gyda'u hyswariant yn cwyno. O'r rhain, roedd 28% o'r farn bod eu problem yn rhy ddibwys neu nad oedd yn werth y drafferth. Roedd 17% o'r farn ei bod hi'n rhy anodd cwyno, roedd 45% o'r farn na fyddai cwyno yn cael unrhyw effaith ac na fyddai unrhyw beth yn digwydd, ac nad oedd gan 25% amser / yn rhy brysur.

Byddwn yn monitro tueddiadau yn y niferoedd hyn, ynghyd â data arall, i asesu a yw achosion hawlwr sy'n cael eu trin yn wael yn debygol o fod yn cynyddu neu'n gostwng.

Gweithredu'r Gyfarwyddeb Dosbarthu Yswiriant

Rydym wedi cyhoeddi 3 Datganiad Polisi gyda'n rheolau agos-at-derfynol i weithredu'r Gyfarwyddeb Dosbarthu Yswiriant (IDD). Mae'r IDD yn fframwaith cyfreithiol UE newydd ar gyfer dosbarthu yswiriant sy'n disodli'r Gyfarwyddeb Cyfryngu Yswiriant. Ei nod yw cryfhau diogelwch i ddefnyddwyr wrth brynu yswiriant a chefnogi cystadleuaeth rhwng dosbarthwyr yswiriant trwy greu tegwch.

Mae'r IDD yn rheoleiddio gweithgareddau pob dosbarthwr cynhyrchion yswiriant, gan gynnwys cynhyrchion yswiriant sydd ag elfennau buddsoddi. Mae'n nodi pa wybodaeth ddylai dosbarthwyr ei rhoi i'w cwsmeriaid ac mae'n gosod rheolau ymddygiad busnes a thryloywder.

Cytunwyd ar lefel Ewropeaidd i ohirio'r IDD o'i ddyddiad cychwynnol gwreiddiol sef 23 Chwefror 2018. Bellach mae'n ofynnol i Aelod-wladwriaethau drosi'r gyfarwyddeb erbyn 1 Gorffennaf 2018, a bydd yn ofynnol i gwmnïau gydymffurfio â'r gofynion newydd o 1 Hydref 2018.

Mynediad i yswiriant teithio ar gyfer dioddefwyr cancer

Cyhoeddwyd Galwad am Fewnbwn i geisio barn, yn ddelfrydol gyda chefnogaeth enghreifftiau a thystiolaeth, o'r heriau y mae cwmnïau yn eu hwynebu wrth ddarparu yswiriant teithio i ddefnyddwyr sydd â, neu sydd wedi bod â, chanser, a'r rhesymeg dros y gwahaniaeth rhwng prisiau mewn premiymau a ddyfynnwyd. Rydym yn ystyried yr ymatebion a byddwn yn rhoi sylw pellach ymhellach yn ystod 2018/19.

Y Galw am Fewnbwn oedd y cam cyntaf yn ein hymgysylltiad ehangach i wella ein dealltwriaeth o'r materion ar gyfer defnyddwyr bregus gan ddefnyddio gwahanol farchnadoedd ariannol. Er bod y papur yn canolbwyntio ar yswiriant teithio ar gyfer pobl sydd â chanser, neu sydd wedi cael cancer, bydd y canfyddiadau yn berthnasol i gyflyrau meddygol eraill sydd eisoes yn bodoli, a hefyd i gynhyrchion diogelu eraill.

Cynyddu tryloywder gwerth

Mae cyhoeddi data ar fesurau gwerth yswiriant cyffredinol yn cynyddu'r ystod o wybodaeth sydd ar gael am gynhyrchion yswiriant cyffredinol. Bydd hyn yn helpu i gynyddu ffocws y farchnad ar addasrwydd a gwerth, yn ogystal â'r pris pennawd. Ym mis Mawrth 2018, cyhoeddassom yr ail set o ddata o'n peilot mesurau gwerth i gymharu data hawliadau ar draws 4 o gynhyrchion yswiriant cyffredinol. Y cynhyrchion hyn oedd yswiriant cartref (adeiladau a chynnwys cyfunol), yswiriant argyfwng cartref, yswiriant damweiniau personol a werthwyd fel ychwanegiad i yswiriant modur neu gartref a gwarchodaeth allweddol a werthwyd fel ychwanegiad i yswiriant modur. Disgwylwn i'r wybodaeth hon gynyddu tryloywder ac annog cwmnïau i wella gwerth eu cynhyrchion. Rydym yn gwerthuso effaith y peilot hyd yn hyn. Yna byddwn yn penderfynu a oes angen trydydd cyhoeddiad peilot arnom ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Awst 2018. Bydd y cynllun peilot hwn yn ein galluogi i ddatblygu a mireinio mesurau gwerth cyn unrhyw ymgynghoriad posibl ar reolau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau gyhoeddi'r data hyn yn rheolaidd.

Cynyddu tryloywder wrth adnewyddu

Mae datgelu prisiau adnewyddu mewn yswiriant cyffredinol yn nodwedd bwysig o gynyddu tryloywder ac ymgysylltu wrth adnewyddu ac atal y niwed posibl i ddefnyddwyr pan fo prisiau'n rhy uchel neu'n rhy isel.

Daeth rheolau newydd i rym ym mis Ebrill 2017 sy'n gofyn i gwmnïau ddatgelu gwybodaeth benodol o fewn hysbysiadau adnewyddu. Mae'r rheolau yn mynnu datgelu premiwm y flwyddyn flaenorol ac i gwmnïau ddarparu datganiad sy'n annog defnyddwyr i wirio eu gwarchodaeth a siopa o gwmpas. Mae'r rheolau yn berthnasol i'r holl gynhyrchion yswiriant cyffredinol a ddarperir i gwsmeriaid adwerthu (ac eithrio busnesau bach a chanolig eu maint) am fwy na 10 mis.

Eleni, adolygom sut y mae cwmnïau wedi gweithredu'r rheolau hyn. Er ein bod ni wedi canfod enghreifftiau o arfer da, roeddem yn pryderu nad oedd cwmnïau'n ddigon parod i gyflawni'r rheolau tryloywder adnewyddu yn gywir. O ganlyniad, rydym wedi gweithredu gyda chwmnïau unigol lle rydym wedi nodi materion ac wedi cyhoeddi sawl gohebiaeth ar draws y farchnad i atgoffa cwmnïau o'n disgwyliadau ehangach.

Arferion prisio cwmnïau

Yn 2016 cyhoeddwyd Datganiad Adborth Galw am Fewnbwn ar ddata mawr mewn yswiriant cyffredinol adwerthu. Eleni, gwnaethom ymgymryd â gwaith diagnostig i edrych ar arferion prisio cwmnïau. Ein nod oedd gwella ein dealltwriaeth o'r systemau a'r data y mae cwmnïau'n eu defnyddio i benderfynu ar y pris terfynol i ddefnyddwyr a threfniadau llywodraethu a goruchwyllo cwmnïau. Edrychom hefyd ar y mathau o systemau a mae cwmnïau data trydydd parti yn eu defnyddio i benderfynu ar y pris terfynol i ddefnyddwyr. Byddwn yn adeiladu ar y gwaith hwn yn 2018/19 i edrych a oes angen inni ymyrryd ymhellach i sicrhau bod arferion prisio yswiriant yn y dyfodol yn gweithio'n dda i ddefnyddwyr.

Astudiaeth Marchnad Brocer Yswiriant Cyfanwerthu

Gan weithredu'n unol â'n hamcan strategol i sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio'n dda, ac i hybu ein hamcan cystadleuaeth, lansiwyd ein Hastudiaeth i'r Farchnad Broceriaid Yswiriant Cyfanwerthu ym mis Tachwedd 2017 i ystyried pa mor dda y mae cystadleuaeth yn gweithio yn y sector hwn. Rydym am sicrhau bod y sector yn gweithio'n dda ac yn meithrin arloesedd a chystadleuaeth er lles ei amrywiaeth amrywiol o gleientiaid. Mae ein hastudiaeth yn cynnwys edrych ar sut mae broceriaid yn cystadlu'n ymarferol ac a ydynt yn defnyddio eu pŵer bargeinio i gael llawer o gleientiaid, sut maent yn rheoli gwrthdaro buddiannau, a sut mae ymddygiad broceriaid yn effeithio ar gystadleuaeth. Mae ein gwaith ar y prosiect hwn yn parhau.

Buddsoddiadau adwerthu

Mae angen i ddefnyddwyr sy'n penderfynu cymryd cyngor ar fuddsoddiadau wybod ei fod yn addas i'w hanghenion, yn gyson â'u hagwedd at risg ac na chodir gormod arnynt. Mae hyn yn gynyddol bwysig ers i'r rhyddid gael eu cyflwyno, gan fod llawer o ddefnyddwyr bellach yn wynebu dewisiadau ariannol cynyddol gymhleth. Mae ein strategaeth ar gyfer goruchwyllo ansawdd cyngor buddsoddiadau adwerthu yn ddeublyg. Yn gyntaf, ein nod yw gwella safonau ar draws y farchnad ac yn achlysurol asesu a yw hyn wedi digwydd. Yn ail, rydym yn canolbwyntio ar feysydd penodol o gyngor lle gall lefelau addasrwydd fod yn is. Mae'r rhain yn cynnwys buddsoddiadau risg uchel a throsglwyddiadau pensiwn.

Dangosyddion canlyniadau

Cynhyrchion anaddas neu amhriodol

Efallai y bydd cwsmeriaid yn derbyn cyngor anaddas a all arwain at brynu cynhyrchion anaddas neu amhriodol. Yn unol â'n hamcanion i sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio'n dda ac i ddiogelu defnyddwyr ym Mai 2017, cyhoeddasom ganlyniadau ein hadolygiad o addasrwydd cyngor pensiwn a buddsoddi yn y sector ymgynghorol ariannol. Dangosodd y canlyniadau fod yna gyngor addas mewn 93.1% o achosion. Fodd bynnag, mae cwsmeriaid yn dal i dderbyn cyngor anaddas mewn 4.3% o achosion a chynghor aneglur mewn 2.5% o achosion.

Yn 2019 rydym yn bwriadu ailasesu addasrwydd cyngor. Bydd cymharu canlyniadau'r adolygiad hwnnw â'r canlyniadau a gyhoeddwyd ym mis Mai 2017 yn ein helpu ni i nodi tueddiadau posibl yn y niferoedd o gwsmeriaid sydd mewn perygl o gael y niwed hwn.

Mae defnyddwyr yn talu gormod am wasanaeth a/neu'n derbyn mwy o wasanaethau nag sydd eu hangen arnynt

Mae defnyddwyr yn cael eu niweidio os ydynt yn talu gormod am gyngor, o ystyried y gwasanaeth a gânt. Gall y niwed hwn godi os yw cystadleuaeth yn y farchnad gynghori yn wael. Er enghraifft, efallai y bydd defnyddwyr yn cael trafferth asesu'n gywir os ydynt yn cael gwerth am arian o ran pris neu ansawdd y gwasanaethau y maent yn eu cynnig, yn enwedig ar gyfer cynhyrchion cymhleth.

Felly mae'n bwysig bod defnyddwyr yn cael gwybodaeth glir am brisiau. Mae tystiolaeth o Financial Lives 2017 yn awgrymu bod 3% o oedolion y DU sydd â buddsoddiadau adwerthu wedi dioddef problem gyda ffioedd neu ffioedd cymhleth yn ystod y 12 mis blaenorol ac roedd 1% wedi cael problem gyda chynnyrch buddsoddi sy'n costio mwy na'r disgwyl. Byddwn yn monitro sut mae'r ffigur hwn yn newid i weld a yw'n awgrymu bod niwed yn lleihau.

Materion gweithredol gyda llwyfannau

Os nad yw defnyddwyr yn gallu cael mynediad i'r llwyfan y maent wedi buddsoddi drwyddo, yna ni fyddant yn derbyn y gwasanaeth y maent yn rhesymol ei ddisgwyl ac yn talu amdano. Mae data cwynion diweddar yn dweud wrthym fod cwmnïau wedi derbyn 15,834 o gwynion am eu gwasanaeth llwyfan, a achosir gan broblemau gweinyddol neu wasanaeth cwsmeriaid cyffredinol. Byddwn yn monitro tueddiadau yn nifer y cwynion i nodi faint o gwsmeriaid y gellid eu niweidio fel hyn.

Gweithredu ar Gytundebau ar gyfer Gwahaniaeth (CFD) ac opsiynau deuaidd

Mae'r cynhyrchion hyn yn gymhleth ac yn aml yn anaddas i gwsmeriaid adwerthu. Trwy 2017/18 rydym wedi ceisio sicrhau bod cwmnïau ond yn gwerthu CFDs – ac opsiynau deuaidd, a ddaeth i mewn i'n cyfundrefn o 3 Ionawr 2018 – i farchnad darged briodol.

CFDs

Fe wnaethom gyhoeddi datganiad ym mis Mehefin 2017 a oedd yn cadarnhau nad oedd cwmnïau CFD yn dal i fodloni ein disgwyliadau ar wneud asesiadau priodol ar gyfer gwasanaethau heb gyngor. Roedd ein cyhoeddiad yn nodi'r diffygion a nodwyd gennym a chadarnhaodd fod yna feysydd pryder allweddol o hyd yn dilyn llythyr 'Annwyl Brif Weithredwr' Chwefror 2016. Ym mis Tachwedd 2017, yn unol â'n hamcan i ddiogelu defnyddwyr, cyhoeddwyd 2 rybudd i ddefnyddwyr i rybuddio defnyddwyr am risgiau buddsoddi o ddau opsiwn deuaidd a CFDs lle mae crypto-arian-cyfred yn fuddsoddiad sylfaenol.

Ym mis Ionawr 2018 rhoesom lythyr 'Annwyl Brif Weithredwr' pellach i gwmnïau CFD. Amlygodd hyn fethiannau a allai achosi niwed sylweddol i ddefnyddwyr pan fydd y cwmnïau hyn yn gwerthu CFDs ar sail ymgynghorol neu ddewisol. Atgoffwyd y cwmnïau i ystyried y materion hyn, a dywedwyd wrthynt ein bod yn disgwyl iddynt ystyried y rheolau a'r canllawiau perthnasol yn y llythyr.

Opsiynau deuaidd

Ers 3 Ionawr 2018, rhaid i gwmnïau sy'n ymwneud ag opsiynau deuaidd sy'n masnachu yn y DU gael eu hawdurdodi gennym ni. Bydd cwmnïau sydd heb eu hawdurdodi gennym ni ac sy'n parhau â gweithgareddau opsiynau deuaidd yn gweithredu yn groes i adran 19 o FSMA, sy'n drosedd.

Rydym wedi cyhoeddi rhestr o 91 o gwmnïau heb awdurdodiad FCA yr ydym yn ei ddeall yn cynnig dewisiadau deuaidd sy'n masnachu i ddefnyddwyr y DU. Mae llawer o'r cwmnïau hyn yn honni eu bod wedi'u lleoli yn y DU ond yr ydym yn edrych ar bob un ohonynt i benderfynu a ydynt yn gweithredu o fewn y DU mewn gwirionedd. Os ydyn nhw, byddwn yn ystyried cymryd camau gorfodi drwy'r llysoedd i roi'r gorau i'w gweithgaredd anghyfreithlon.

Mesurau ymyrraeth cynnyrch

Yn 2017/18 rydym wedi parhau i gyfrannu at Dasglu Awdurdod Gwarantau a Marchnadoedd Ewrop (ESMA) a sefydlwyd yn 2015 i ganolbwyntio ar niwed defnyddwyr gan CFDs ac opsiynau deuaidd. Rydym yn cefnogi'r mesurau ymyrraeth cynnyrch dros dro y cytunwyd arnynt a gyhoeddodd ESMA ar 27 Mawrth 2018:

- gwahardd marchnata, dosbarthu neu werthu opsiynau deuaidd i gleientiaid adwerthu
- cyfyngu ar farchnata, dosbarthu neu werthu i gleientiaid adwerthu CFDs, gan gynnwys betiau ar wasgar a spot forex treigl

Nod y cyfyngiadau i CFDs yw lleihau'r risgiau o'r cynhyrchion hyn. Y cyfyngiadau yw: cyfyngiadau trosoledd (rhwng 30:1 a 2:1), rheol terfyn elw o 50% a ddefnyddir ar sail fesul cyfrif, gwarchodaeth balans negyddol, cyfyngu ar atebolrwydd cleientiaid adwerthu i'r cronfeydd yn eu cyfrif masnachu CFD, a gwaharddiad ar gwmnïau sy'n cynnig buddion ariannol ac anariannol, a rhybudd risg safonol, gan gynnwys ffigurau cwmni penodol ar ganran y cyfrifon cleient sydd wedi colli arian drwy fasnachu mewn CFDs.

Wedi ymyriad ESMA, cyhoeddwyd oedi ar gyhoeddi ein rheolau terfynol ar gyfer mesurau cenedlaethol yn haf 2017. Rydym bellach yn disgwyl ymgynghori ynghylch a ddylid cymhwyso'r mesurau ESMA yn barhaol i gwmnïau sy'n cynnig CFDs ac opsiynau deuaidd i gleientiaid adwerthu.

Gwneud cyngor yn fwy hygyrch

Eleni, cyhoeddassom Ganllawiau Perimedr newydd ar yr hyn sy'n golygu argymhelliad personol. Mae hyn yn golygu ein bod bellach wedi gweithredu'r holl argymhellion a wnaed i ni fel rhan o'r Adolygiad Ariannol a Marchnadoedd Ariannol (FAMR) heblaw am yr adolygiad sydd i'w gynnal yn 2019.

Bwriad ein harweiniad yw rhoi mwy o hyder i gwmnïau y gallant, ymhlith pethau eraill, roi gwybod i gwsmer nad ydynt wedi cynyddu eu cyfraniadau pensiwn dros gyfnod hir, yn eu rhybuddio am unrhyw ganlyniadau negyddol trafodiad y byddent yn dymuno eu gwneud a chynnig cynhyrchion sydd wedi'u cynllunio i fodloni amcan buddsoddi penodol heb wneud argymhelliad personol o reidrwydd.

Cyngor awtomataidd

Gall defnyddwyr ofyn am gyngor ynghylch pa mor addas ydy sut mae cynhyrchion mewn amrywiaeth o wahanol ffyrdd Gall darparu amrywiaeth o gynhyrchion gynnig gwell dewis i ddefnyddwyr ac felly gwella cystadleuaeth. Mae'r farchnad gwasanaethau rheoli buddsoddiad awtomataidd yn parhau yn dal yn ifanc, gyda modelau fel arfer yn cael eu datblygu i ddarparu cyngor a gwasanaethau ar fusnes buddsoddi llai cymhleth. Roeddem am ddeall y dulliau newydd hyn o gyflwyno cyngor ac asesu a yw defnyddwyr yn cael eu gwasanaethu'n dda ganddynt.

Gan weithredu'n gydnaws â'n hamcan strategol i sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio'n dda, dros y flwyddyn ddiwethaf, cynhaliwyd 2 adolygiad i wasanaethau rheoli buddsoddiad awtomataidd. Fe wnaethon ni asesu 7 cynnig rheoli buddsoddiad dewisol ar-lein a 3 gwasanaeth cyngor ar fuddsoddi ar-lein. Canfuom fod y gost ar gyfer gwasanaethau a chynghor rheoli buddsoddiad awtomataidd wedi gostwng yn sylweddol o'i gymharu â sianeli mwy traddodiadol, wyneb yn wyneb fel arfer. Defnyddiasom ein canfyddiadau yn ein gohebiaeth i'r diwydiant. Byddwn yn parhau i gefnogi cwmnïau, er enghraifft, trwy ein rhaglen Innovate, a byddwn hefyd yn cynnal asesiadau parhaus o farchnadoedd sy'n datblygu fel cyngor buddsoddi awtomataidd. Disgwylwn i gwmnïau presennol a newydd-ddyfodiaid i'r farchnad hon ystyried ein canfyddiadau i sicrhau eu bod yn cyflwyno canlyniadau da i ddefnyddwyr.

Buddsoddiad risg uchel

Rydym yn ymwybodol fod defnyddwyr yn dioddef niwed pan fydd cwmnïau'n argymhell eu bod yn prynu cynhyrchion anaddas. Mae hyn yn cynnwys buddsoddiadau risg uchel nad ydynt yn briodol ar gyfer defnyddwyr ag archwaeth risg is a'r rhai heb y gallu ariannol i ymdopi â gostyngiad sylweddol yn eu cyfalaf. Yn unol â'n hamcan diogelu defnyddwyr, roedd ein goruchwyliaeth yn 2017 yn cynnwys gwaith gyda sawl cwmni er

mwyn sicrhau ein bod yn deall yn well lefel y buddsoddiadau risg uchel a argymhellir i ddefnyddwyr adwerthu. Fe wnaethom ofyn am fanylion ar weithgarwch buddsoddi risg uchel o 152 o gwmnïau a dadansoddodd eu hymatebion. Asesodd y gwaith hwn hefyd pa gynhyrchion datgelu cynnyrch a ddarperir i ddefnyddwyr cyn buddsoddi. Byddwn yn parhau â'r gwaith hwn yn 2018 ac yn defnyddio'r canlyniadau i siapia ein gweithgarwch goruchwyllo yn y dyfodol ar gyfer y mathau hyn o fuddsoddiadau.

Ymgysylltu ag ymgynghorwyr

Fel rhan o'n gwaith goruchwyllo, rydym yn ymgysylltu ag ymgynghorwyr i annog arfer da yn y cyngor a'r gwasanaethau a gynigir i ddefnyddwyr adwerthu a sicrhau ein bod yn deall sut mae'r farchnad yn gweithio.

Fel yn y blynnyddoedd blaenorol, cawsom gyfres o ddigwyddiadau 'Byw a Lleol' ledled y wlad. Mae'r digwyddiadau hyn yn rhoi cyfle i gwmnïau ac ymarferwyr lleol gymryd rhan mewn gweithdai goruchwyllo, cymorthfeydd cwmnïau, trafodaethau byrddau crwn a chinio'r Cadeirydd. Mae nifer da yn dod i'r digwyddiadau hyn ac maen nhw'n gyfle inni siarad yn uniongyrchol â thros 1,250 o ymgynghorwyr ariannol. Eleni, roedd ein gweithdai goruchwyllo rhyngweithiol yn canolbwyntio ar ganlyniadau ein Hadolygiad Asesu Addasrwydd, gan ddarparu prif gasgliadau a rhannu enghreifftiau o ymarfer da a gwael.

Fe wnaethom hefyd gefnogi cynadleddau rhanbarthol chwarterol y Gymdeithas Cyllid Personol eto eleni. Er bod sesiynau'r blynnyddoedd blaenorol yn ymdrin ag addasrwydd a datgeliad yn bennaf, eleni cyflwynasom sesiynau edrych ymlaen ar weithredu MIFID II, IDD a PRIIP ar gyfer cwmnïau ymgynghorol ariannol. Roedd y sesiynau hyn yn ein galluogi i drafod rhai o'r gofynion allweddol o'r ddeddfwriaeth hon gyda thros 3,350 o ymgynghorwyr ariannol.

Datgelu effaith llwyfannau ar gostau

Lansiwyd ein hastudiaeth marchnad llwyfannau buddsoddi ym mis Gorffennaf 2017 i asesu pa llwyfannau sy'n cystadlu a'r effaith sydd ganddynt ar y taliadau cyffredinol mae buddsoddwyr yn talu am eu cynhyrchion buddsoddi adwerthu. Rydym wedi ymrwymo i wneud hyn yn adroddiad terfynol Astudiaeth Marchnad Rheoli Asedau, a amlygodd nifer o faterion cystadleuol posibl yn y sector llwyfannau.

Eleni rydym wedi casglu tystiolaeth gan gwmnïau llwyfan a chwmnïau eraill sy'n cystadlu am fuddsoddiadau adwerthu yn ogystal ag ymgynghorwyr ariannol a defnyddwyr sy'n defnyddio llwyfannau. Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad interim yn Haf 2018, gan nodi unrhyw broblemau a welwn yn y farchnad ac unrhyw gamau gweithredu y bwriadwn eu cymryd. Lle'r ydym yn gweld materion yn y farchnad y gallwn fynd i'r afael â hwy, byddwn yn cymryd camau priodol.

Cynnyrch Buddsoddi Seiliedig ar Yswiriant ac Adwerthu mewn Pecyn (PRIIPs)

Daeth PRIIPs i rym ar 1 Ionawr 2018, gyda'r nod o hybu marchnadoedd effeithlon yn yr UE drwy helpu buddsoddwyr i ddeall a chymharu nodweddion, risgiau, gwobrau a chostau allweddol PRIIPs gwahanol. Rhaid i gwmnïau ddarparu'r wybodaeth hon mewn dogfen wybodaeth allweddol fer a chyfeillgar i'r defnyddiwr (KID). Mae Safonau Technegol Rheoleiddiol PRIIP yn nodi sut y dylai cwmnïau gyfrifo a chyflwyno'r wybodaeth hon.

Ym Mai 2017 cyhoeddassom PS17/6 – yn nodi rheolau a chanllawiau diwygiedig yn Llawlyfr yr FCA sy'n adlewyrchu'r broses o ddefnyddio Rheoliad PRIIPs a chyflwyno'r KID.

Mae rhai cwmnïau wedi dweud wrthym y gall y wybodaeth 'senario perfformiad' sy'n ofynnol yn y KID ymddangos yn rhy optimistaidd ar gyfer lleiafrif o PRIIPs ac felly gallai fod yn gamarweiniol. Rydym wedi datgan yn gyhoeddus y gall cwmnïau ddarparu deunyddiau esboniadol ychwanegol, i roi'r cyfrifiad mewn cyd-destun ac i nodi eu pryderon i fuddsoddwyr eu hystyried.

5 Gweithio gyda'n partneriaid

Rydym yn rhan annatod o fframwaith rheoleiddio ariannol ehangach y DU. Mae rhan annatod o'n gwaith yn cynnwys gweithio cyd gysylltiedig ag ystod o wahanol bartneriaid. Mae'r rhain yn amrywio o reoleiddwyr rhyngwladol ac asiantaethau y byddwn yn mynd i'r afael â phryderon rheoleiddiol byd-eang gyda nhw, i gydweithredu a chysylltu agos ag ystod o gyrff y DU, gan gynnwys meysydd megis ymwybyddiaeth defnyddwyr, rheoleiddio darbodus a ffurfio polisi ar risgiau sy'n dod i'r amlwg i'n hamcanion.

Mae gan Fanc Lloegr, yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus (PRA), a'r Rheoleiddiwr Systemau Taliadau (PSR) Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth (MoU) gyda'r FCA dyddiedig Mawrth 2015. Mae'n nodi sut y bydd yr awdurdodau yn cydweithredu â'i gilydd mewn perthynas â systemau talu yn y DU. Adolygir y MoU yn flynyddol, a daeth yr adolygiad diweddaraf i'r casgliad bod cydweithrediad a chydlynad o dan y MoU yn gweithio'n dda.

Y Rheoleiddiwr Systemau Talu

Daeth y PSR yn gwbl weithredol ar 1 Ebrill 2015 ac mae'n is-gorff annibynnol o'r FCA. Dyma'r rheoleiddiwr cyntaf o'i fath yn y byd, a'i ddiben yw gwneud i systemau talu weithio'n well i'r bobl a'r sefydliadau sy'n eu defnyddio. Caiff hyn ei gefnogi gan ei amcanion o hybu cystadleuaeth, arloesi a buddiannau defnyddwyr y gwasanaeth.

Yr FCA a'r PSR yw'r awdurdodau cymwys ar gyfer monitro a gorfodi gwahanol rannau o Reoliadau Gwasanaethau Talu 2017. Mae'r FCA a'r PSR yn gyfrifol am fonitro cydymffurfiaid â Rheoliad 105 (mynediad at wasanaethau cyfrif talu). Rydym wedi gweithio'n agos gyda'r PSR i ddatblygu ein hymagwedd at y rheoliadau hyn ac rydym yn cydlynu cyhoeddi ein datganiadau polisi i weithredu ein rheolau perthnasol ein hunain.

Ym mis Tachwedd 2017, fe wnaethom gyfrannu at bapur y PSR ar sgamiau taliad gwrthio awdurdodedig yn dilyn uwch-gŵyn Which? ynghylch mesurau diogelu yn y farchnad ar gyfer taliadau gwrthio.

Mae rhagor o wybodaeth am weithgarwch y PSR yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar gael yn ei Adroddiad Blynnyddol ei hun.

Yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus

Mae llawer o'n gwaith cydlynol â'r PRA yn digwydd yn ddyddiol yn sgil ein gwaith ar y cyd, a hynny yn ogystal â chyfarfodydd lefel uwch rheolaidd sydd wedi'u hamserlennu. Mae ein Prif Weithredwr yn aelod o'r Pwyllgor Rheoleiddio Darbodus ac mae Prif Swyddog Gweithredol y PRA yn aelod o fwrdd yr FCA.

Mae gennym Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth â'r PRA, sy'n cynnwys trefniadau o ran sut rydym yn ymgymryd â'n cyfrifoldebau a sut rydym yn mesur ein perfformiad drwy lunio adroddiadau chwarterol manwl. Mae hefyd yn tanlinellu ein nod o weithio mewn modd annibynnol ond cydlynol.

Mae'r Awdurdod Rheoleiddio Darbodus wedi nodi bod rhai cwmnïau'n bwysig i sefydlogrwydd system ariannol y DU, ac mae'n ofyniad statudol eu bod yn cynnal cyfarfod blynnyddol â'u harchwilwyr allanol. Diben y cyfarfodydd hyn yw cael dealltwriaeth ddyfnach o faterion y cwmni, yn ogystal â'r themâu a'r tueddiadau sy'n codi o waith yr archwilydd allanol. Trefnwyd a chyflawnwyd 30 o'r cyfarfodydd hyn yn ystod 2017/18.

Mae gan y PRA hawl i roi feto lle mae'n ystyried bod y camau gweithredu rydym yn eu cymryd yn bygwth sefydlogrwydd ariannol neu'n achosi rhywun sydd wedi'i awdurdodi gan y PRA i fethu mewn modd a fyddai'n cael effaith niweidiol ar sefydlogrwydd ariannol. Nid yw'r pŵer hwn wedi cael ei ddefnyddio eleni.

Mae'r rheoleiddwyr wedi cydlynu'n effeithiol ar faterion polisi fel y Gyfundrefn Ardystio ac Uwch Reolwyr, banciau'n clustnodi a gwobrwyo. Eleni, rydym wedi gweithio'n agos gyda'r PRA i sicrhau bod gwybodaeth ychwanegol yn cael ei chasglu fel rhan o adroddiadau rheoleiddiol o dan MiFID II ac wedi gwneud y newidiadau perthnasol i'r ffurflenni a ddefnyddir gan gwmnïau buddsoddi MiFID. Rydym hefyd yn parhau i gydweithio ar faterion sy'n ymwneud â Gadael yr Undeb Ewropeaidd.

Mae'r rheoleiddwyr yn cydweithio'n agos i ymateb yn effeithiol i ddigwyddiadau penodol trwy Fframwaith Ymateb yr Awdurdodau. Mae hyn yn sicrhau ymateb cydlynol gan yr FCA, Banc Lloegr a'r Trysorlys i unrhyw ddigwyddiad sy'n achosi tarfu mawr i'r sector ariannol a/neu'r awdurdodau.

Mae'r ddau reoleiddiwr yn parhau i adolygu systemau TG a rennir yr FSA er mwyn sicrhau bod gan y ddau sefydliad systemau sy'n diwallu eu hanghenion unigol gan gefnogi dull cydweithredol o rannu gwybodaeth ar yr un pryd.

Y Pwyllgor Polisi Ariannol (FPC)

Yr FPC yw'r prif gorff yn y DU ar gyfer canfod, monitro a lliniaru risg yng nghyswllt sefydlogrwydd ariannol. Mae ein Prif Weithredwr yn aelod o'r pwyllgor ac rydym yn cydweithio'n agos â Banc Lloegr mewn meysydd sydd o ddiddordeb i'r FPC. Yn 2017/18, canolbwyntiodd y gwaith hwn yn bennaf ar gredyd defnyddwyr, Gadael yr Undeb Ewropeaidd, datblygiadau mewn masnachu electronig awtomatig mewn marchnadoedd ariannol, FinTech a risgiau seiber.

Pwyllgor Goruchwyllo

Mae gan Fwrdd yr FCA sawl pwyllgor y mae'n dirprwyo rhai swyddogaeth/pwerau iddynt. Un o'r rhain yw'r Pwyllgor Goruchwyllo. Mae'n gyfrifol am ddarparu cefnogaeth a chynghori i'r Bwrdd ar ei bherthynas â'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol (MAS) a'i rhwymedigaethau o dan FSMA mewn perthynas â MAS. Mae gan y Pwyllgor y gallu i ymestyn ei gwmpas i gyflawni aseiniadau eraill fel y mae'r Bwrdd yn eu gorchymyn yn benodol, er enghraifft, i adolygu Cynllun a Chyllideb y Gwasanaeth Ombwdsmon Ariannol neu'r Cynllun Iawndal Gwasanaethau Ariannol o dro i dro os oes angen.

Gwasanaeth Ombwdsmon Ariannol (FOS)

Gall defnyddwyr sy'n anffodlon ag ymateb cwmnïau rheoledig i'w cwynion gwyno i'r Ombwdsmon. Rydym yn cydweithio'n agos â Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol er mwyn deall y problemau y mae defnyddwyr yn eu hwynebu. Rydym yn defnyddio eu data cwynion a'r data yr ydym yn ei gasglu gan gwmnïau i'n helpu i asesu maint y problemau posibl nawr ac yn y dyfodol yn y farchnad.

Cynllun Iawndal Gwasanaethau Ariannol (FSCS)

Rydym hefyd yn gweithio â'r FSCS, sef y corff annibynnol sy'n delio â hawliadau am iawndal gan ddefnyddwyr pan fydd cwmnïau rheoledig yn mynd yn fethdalwyr.

Eleni rydym wedi cwblhau'r rheolau i ymestyn cwmpas yr FSCS, i gynyddu'r diogelwch y mae'n ei ddarparu i ddefnyddwyr ac i ddiwygio'r ffordd y caiff y gost ei dyrannu i sicrhau bod y cynllun yn cael ei ariannu yn deg ac yn gynaliadwy.

Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol (MAS)

Rydym yn gweithio gyda MAS, sefydliad annibynnol sy'n gyfrifol am ddarparu arweiniad ariannol diduedd ledled y DU, ac am ariannu a chydlynu'r gwaith o ddarparu cynghori ynghylch dyledion yn rhad ac am ddim.

Yn dilyn ymgynghoriad gan y Llywodraeth yn 2016 cytunwyd y byddai'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol, Pension Wise a'r Gwasanaeth Cynghori ar Bensiynau yn ymuno â'i gilydd i ffurfio Corff Canllawiau Ariannol Sengl (SFGB) newydd a fyddai'n gallu ymateb yn well i wahanol anghenion arweiniad ariannol defnyddwyr.

Mae'r Llywodraeth yn rhag-weld y bydd y Corff Arweiniad Ariannol Unigol yn cael ei lansio erbyn diwedd 2018 fan bellaf. Rydym yn parhau i weithio gyda MAS, yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), y Gwasanaeth Cynghori ar Bensiynau a'r Trysorlys i ddarparu cymorth drwy gydol y cyfnod pontio er mwyn sicrhau y bydd y model newydd yn cael ei roi ar waith yn effeithiol.

Yn ychwanegol, rydym yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Ombwdsmon Ariannol, FSCS a MAS i rannu gwybodaeth a mewnwleidiad yn fwy effeithiol ar draws sefydliadau.

Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA)

Mae'r CMA yn gweithio i hybu cystadleuaeth er budd y defnyddwyr, yn y DU a thu allan i'r DU. Ei fwriad yw sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio'n dda i ddefnyddwyr, busnesau a'r economi. Mae gan y CMA bwerau cyfraith cystadleuaeth sy'n berthnasol ar draws yr holl economi. Ers 1 Ebrill 2015, rydym wedi cael pwerau cystadleuaeth cydamserol mewn perthynas â darparu gwasanaethau ariannol. Mae hyn yn golygu bod gennym y pŵer i orfodi gwaharddiadau yn erbyn torri cyfraith cystadleuaeth, pwerau ychwanegol i gynnal astudiaethau o'r farchnad ynglŷn â sut mae cystadleuaeth yn gweithio mewn marchnadoedd, a phwerau i gyfeirio marchnadoedd at y CMA i gael archwiliad manwl.

Eleni, gwnaethom ein cyfeiriad ymchwiliad cyntaf i'r farchnad i'r CMA ar wasanaethau rheoli ymgynghorwyr buddsoddi a rheoli ymddiriedolaeth, yn dilyn Astudiaeth Marchnad Rheoli Asedau, fel y nodwyd yn ein gwaith ar y sector rheoli Buddsoddiadau.

Y Rheolydd Pensiynau (TPR)

Rydym yn parhau i gydweithio'n agos â TPR. Er enghraifft, ym mis Mawrth 2018, cyhoeddassom alwad am fewnbwn ar ein hymagwedd strategol at y sector pensiynau ac incwm ymddeol. Bydd hyn yn nodi sut y bydd yr FCA a'r TPR yn gweithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â risgiau allweddol yn y 5-10 mlynedd nesaf.

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO)

Eleni, rydym wedi parhau i weithio gyda'r ICO. Er enghraifft, ym mis Chwefror 2018, cyhoeddodd yr FCA a'r ICO ddiweddariad ar y cyd ar Reoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data yr UE (GDPR). Enghraifft arall o sut rydym ni'n gweithio gyda'i gilydd yw arloesi, lle mae'r ICO yn darparu mewnbwn wedi'i deilwra i Ganolfan Arloesi yr FCA.

Partneriaid rhyngwladol

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae ein cyfraniad mewn gweithgareddau a chyrff yn Ewrop a ledled y byd wedi parhau i fod yn agwedd anhepgor ar ein gwaith. Ar ba bynnag delerau fydd y DU yn gadael yr UE, bydd y perthnasoedd rhwng rheoleiddwyr a chyrff yn y DU ac yn rhyngwladol, a'r gwaith rydym yn ei wneud â nhw, yn parhau i fod yn rhan hanfodol o sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio'n dda yn y DU.

Rydym yn parhau i ymgysylltu'n agos â llawer o sefydliadau rhyngwladol eraill, gan gynnwys:

- Sefydliad Rhyngwladol y Comisiwn Gwarantau
- Bwrdd Sefydlogrwydd Ariannol
- Cymdeithas Rhyngwladol y Goruchwylwyr Yswiriant

- Y Tasglu Gweithredu Ariannol
- Sefydliad ar gyfer Cydweithredu a Datblygu Economaidd
- Y Rhwydwaith Rhyngwladol ar gyfer Diogelu Defnyddwyr Ariannol
- Awdurdod Bancio Ewrop
- Awdurdod Gwarantau a Marchnadoedd Ewropeaidd
- Awdurdod Pensiynau Galwedigaethol ac Yswiriant Ewrop
- Bwrdd Risg Systemig Ewrop

Yn ogystal â'n gwaith ymgysylltu parhaus ag amryw o fforymau polisi rhyngwladol, rydym wedi parhau i weithio gyda nifer o reoleiddwyr eraill ar sail ddwyochrog.

Paneli Statudol

Mae'n ofynnol ein bod yn ymgynghori ynghylch effaith ein gwaith â phedwar panel statudol. Mae'r paneli hyn yn cynrychioli buddiannau defnyddwyr, ymarferwyr, marchnadoedd a chwmnïau rheoledig llai. Rydym hefyd yn ymgynghori â Phanel Ymgynghori'r Awdurdod Rhestru.

Mae'r paneli hyn yn chwarae rhan bwysig drwy ein cynghori a'n herio ni. Maent yn dod â chyfoeth o brofiad, cefnogaeth ac arbenigedd wrth nodi risgiau i'r farchnad ac i ddefnyddwyr. Byddwn yn ystyried eu safbwyntiau pan fyddwn yn datblygu ein polisiau a phan fyddwn yn penderfynu ar ymyriadau rheoleiddio eraill ac yn eu rhoi ar waith. Mae pob un o'r paneli statudol yn cyhoeddi ei adroddiad blynnyddol ei hun. Y Paneli yw:

- Y Panel Defnyddwyr y Gwasanaethau Ariannol
- Panel yr Ymarferwyr
- Panel yr Ymarferwyr Busnesau Llai
- Panel yr Ymarferwyr Marchnadoedd
- Panel Ymgynghori'r Awdurdod Rhestru (anstatudol)

Sefydliadau defnyddwyr

Rydym yn chwilio am safbwyntiau gan ddefnyddwyr drwy amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys cyrff defnyddwyr, ein Canolfan Gyswllt a Phanel Defnyddwyr y Gwasanaethau Ariannol. Er mwyn ein galluogi ni i gyflawni ein nod yng nghyswllt diogelu defnyddwyr, rydym yn cynnal ymchwil helaeth i wella ein gwybodaeth am ddefnyddwyr a'u hanghenion.

Rydym yn parhau i gydweithio'n agos ag ystod o sefydliadau defnyddwyr ledled y DU i sicrhau bod ein gwaith rheoleiddio yn adlewyrchu profiadau defnyddwyr go iawn. Mae ein rhwydwaith o sefydliadau defnyddwyr yn cynnwys:

- Age UK
- AdviceUK
- Alzheimer's Society
- Cyngor ar Bopeth (Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon)
- Cristnogion yn erbyn Tlodi (CAP)
- Cyngor Defnyddwyr Gogledd Iwerddon
- Money Advice Scotland
- Ymddiriedolaeth y Cyngor Ariannol
- Sefydliad Polisi Arian a Iechyd Meddwl
- MoneySavingExpert
- Cymdeithas Genedlaethol Ymgynghorwyr Arian Myfyrwyr (NASMA)
- Scope
- Shelter
- StepChange
- The Money Charity
- Toynbee Hall
- Which?

Rydym yn ymgysylltu ag amrywiaeth gynyddol o grwpiau eraill sy'n gweithio'n uniongyrchol â defnyddwyr i'n helpu ni i adnabod problemau sy'n dod i'r amlwg. Rydym hefyd yn cynnal ac yn mynd i fforymau galluedd ariannol ledled y DU i gael darlun gwell o broblemau defnyddwyr ar lawr gwlad.

Gweithio gyda'r gymuned

Mae ein rhaglen ymgysylltu â'r gymuned yn annog pobl i wirfoddoli gyda'r elusen gofrestredig neu'r grŵp cymunedol o'u dewis. Rydym yn cefnogi ac yn annog gwirfoddoli drwy neilltuo amser o'r gwaith gyda thâl i'n gweithwyr gael cyfle i fod yn weithgar yn eu cymunedau. Y llynedd, fe wnaeth 1,134 o bobl yn ein swyddfeydd yng Nghaeredin ac yn Llundain wirfoddoli cyfanswm o 13,549 o oriau. Mae hyn yn cynrychioli 32.6% o'r gweithwyr, o gymharu â'n targed o 30%.

Rhoddion elusennol

Cefnogodd ein Pwyllgor Elusennau Richard House Children's Hospice, Alzheimer's Society, Alzheimer's Scotland a Friends of Braidburn drwy gydol 2017. Mae'r holl roddion wedi dod gan staff a'u hymdrechion i godi arian. Ac eithrio'r cymorth rhodd, fe godwyd:

- Alzheimer's Scotland – £1,693.26
- Alzheimer's Society – £17,443.18
- Friends of Braidburn School – £229.55
- Richard House Children's Hospice – £15,425.67

Drwy Payroll Giving yn 2017, rhoddodd ein cyflogeion £215,685 i wahanol elusennau, cynnydd o £57,693 o 2016.

Andrew Bailey
Prif Weithredwr